



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Police and Crime Commissioner
South Wales

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Adroddiad Blynyddol 2015-2016

Cynnwys

- 1 Cyflwyniad y Comisiynydd
 - 2 Perfformiad yn erbyn fy nghynllun, sef Cynllun yr Heddlu a (gostwng) Troseddu 2015-2016
 - 5 Crynodeb Ariannol 2015-2016
 - 12 Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau
 - 17 Llywodraethu
 - 18 Gwneud penderfyniadau
 - 19 Craffu
 - 21 Tryloywder
 - 23 Gwirfoddoli
 - 25 Gofyniad Plismona Strategol
 - 25 Ymgysylltu
 - 26 **Atodiad 1**
Cyllid yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2015-2016
 - 27 **Atodiad 2**
Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio 2015-2016
 - 28 **Atodiad 3**
Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio 2015-2016
 - 32 **Atodiad 4**
Digwyddiadau a chyfarfodydd ymgysylltu'r Comisiynydd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016
-

Cyflwyniad y Comisiynydd

Mae fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 yn edrych yn ôl ar flwyddyn gyflawn olaf fy nhymor cyntaf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru.

Yn ystod y flwyddyn hon, rhoddwyd pwyslais mawr ar sicrhau newid effeithiol drwy weithredu buan a chadarnhaol. Gwelwyd hyn fwyaf yn y gwaith a wnaed ar ymyriadau cynnar a arweiniodd at uwchgynhadledd hynod lwyddiannus a drefnwyd gan fy nhîm ac a gynhaliwyd yn Stadiwm Principality yn ystod mis Ionawr 2016. Denodd y digwyddiad uchelgeisiol hwn ystod eang o siaradwyr a chynrychiolwyr o wahanol sefydliadau ledled y de, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a bu'n gyfle delfrydol i rannu profiadau a thynnu sylw at enghreifftiau cadarnhaol lle gallwn wneud gwahaniaeth drwy gydweithio â'n gilydd. Mae digwyddiadau fel hyn yn bwysig am fod partneriaethau a chydweithio yn ffordd effeithiol o ateb yr heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Un o'r partneriaethau pwysicaf sydd gennyf yw'r un â'r Prif Gwnstabl, Peter Vaughan QPM, a'i dîm arwain o brif swyddogion. Yn ystod y flwyddyn, gweithiais yn agos gyda'r Prif Gwnstabl i lunio Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau ar gyfer 2016-21 ac mae'n atgyfnerthu'r egwyddor mai cydweithio yw'r brif egwyddor sy'n ein hysbrydoli. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni mwy nag y gallwn ei gyflawni ar ein pen ein hunain. Rhaid hefyd gydnabod cymorth Panel yr Heddlu a Throseddau yn y broses gynllunio ac rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Panel am eu mewnbwn cadarnhaol.

Mae fy nghynllun yn ymdrin â'r broblem bod yn rhaid i wasanaeth yr heddlu, fel pob corff cyhoeddus, geisio cynnal a gwella gwasanaethau o fewn ein cymunedau â llai o

adnoddau. Rhaid i ni gyd ymdrin ag effaith cyni ac mae'r arbedion o £39 miliwn ers adolygiad cynhwysfawr o wariant y llywodraeth yn 2011-2012 wedi fy nharo, tra'n parhau i ddarparu gwasanaeth o safon i'n cymunedau. Gwn y bydd angen gwneud rhagor o arbedion ac, ar y cyd â'r Prif Gwnstabl, byddaf yn parhau i sicrhau bod De Cymru yn dal i fod yn un o'r rhannau mwyaf diogel o'r Deyrnas Unedig i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Yn ystod y flwyddyn bu newidiadau i'm tîm arwain ac roedd yn adeg drist a llawen pan benodwyd fy Nirprwy Gomisiynydd, Sophie Howe, yn Gomisiynydd cyntaf Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru. Hoffwn longyfarch Sophie a dymuno'n dda iddi ar ei phenodiad ac edrychaf ymlaen at weithio gyda hi a'i tîm newydd. Penodwyd Dr John Rose yn Ddirprwy Gomisiynydd Dros Dro a gwnaeth fy helpu i gynnal y momentwm tan i etholiadau nesaf Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gael eu cynnal ym mis Mai 2016. Hoffwn ddiolch o galon i John am ei gymorth yn ystod y cyfnod hwn.

Rhaid i mi hefyd ddiolch i fy nhîm am ei waith caled a'i ymdrechion i'm helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn Nghynllun yr Heddlu a Throseddau. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cyflawniadau nodedig a wnaed yn 2015-2016 a ddylai gael ei hystyried yn flwyddyn gadarnhaol iawn o ran fy uchelgais i sicrhau De Cymru mwy diogel.



Y Gwir Anrh Alun Michael YH
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
De Cymru

Perfformiad yn erbyn Cynllun yr Heddlu a (gostwng) Troseddu 2015-2016

Ar ddechrau Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2015-2018, amlinellais y cyflawniadau a wnaed yn yr amser byr ers dod yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a oedd yn cynnwys gweithgarwch mewn nifer o feysydd, o gefnogi dioddefwyr, i ddefnyddio technoleg i wella plismona a gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol ar fentrau i ostwng aildroseddu.

Mae'n braf gennyf ddweud, dros y flwyddyn ddiwethaf, ein bod wedi parhau i gynnal y momentwm hwnnw ac wedi llwyddo i wneud cryn gynnydd drwy weithio mewn partneriaeth a'r gred, er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebwn i gyd, y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd nag ar ein pen ein hunain. Un enghraifft o hyn yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rydym wedi ei lofnodi ag Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n nodi meysydd y gallwn gydweithio arnynt er budd y naill a'r llall.

Mae fy mlaenoriaethau a amlinellwyd yn y cynllun yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol - Gweithio gyda'r Heddlu, Gweithio gyda Phartneriaid, Gweithio gyda'r System Cyfiawnder Troseddol a Gwaith sy'n cael ei Ddatblygu - sy'n adlewyrchu rôl a chyfrifoldebau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r egwyddor sylfaenol i fod yn ddidostur o ran trosedd a'r hyn sy'n ei hachosi, mynd i'r afael â throsedd a'i hatal drwy hyrwyddo dull o weithio mewn partneriaeth ar sail tystiolaeth er mwyn nodi'r "hyn sy'n gweithio" a sut y gallaf ychwanegu gwerth.

O ran Gweithio gyda'r Heddlu, y brif flaenoriaeth yw gostwng troseddu a'i atal. Mae lefelau troseddu ar eu hisaf ers canol y 1980au ond mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n benderfynol o barhau i wneud ein cymunedau'n fwy diogel a chadarn drwy ddeall anghenion ein cymunedau ac ymateb iddynt yn well. Drwy barhau i weithio gyda'n cymunedau a chynnal adolygiadau o

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig â Heddlu De Cymru, rhoddwyd sail i ni symud ymlaen a sicrhau bod yr heddlu yn cynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ac yn diwallu anghenion ei weithlu. Rydym hefyd wedi gweithio i'w gwneud yn haws i gael gafael ar wasanaethau'r heddlu ac mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn rhaglen newid sylweddol er mwyn gwella ei pherfformiad o ran ymdrin â galwadau. Yn ogystal, mae'r gwaith a wneir mewn meysydd fel troseddau treisgar, trais yn erbyn menywod a merched, ac iechyd meddwl yn rhoi'r hyder i'r cyhoedd roi gwybod am droseddau, a gefnogir gan lefelau boddhad dioddefwyr sy'n golygu bod Heddlu De Cymru ymhlith y 10 heddlu gorau o ran perfformiad yn y DU.

Gweithio gyda phartneriaid sydd wedi bod wrth wraidd fy null gweithredu erioed. Mae'r heriau ariannol a wynebir gan bob asiantaeth yn golygu bod angen i ni hyrwyddo ffyrdd mwy arloesol o gydweithio er mwyn diwallu anghenion ein cymunedau. Mae'r Man Cymorth yn Abertawe yn enghraifft wych o fanteision cydweithio. Mae'r fenter hon, a gafodd ei lansio'r llynedd, yn parhau i leihau'r galw ar yr heddlu, yn ogystal â'r gwasanaeth ambiwlans a phartneriaid iechyd. Bydd y gwaith a wneir gyda phartneriaid o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis cyflwyno'r Sbardun Cymunedol a'r Rhwymedi Cymunedol, yn ogystal â'n hadolygiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn anelu at ostwng lefelau ymhellach yn Ne Cymru. Mae prosiect IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch), mewn partneriaeth ag iechyd, hefyd yn parhau i ddatblygu ac mae'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran annog unigolion i ddatgelu achosion o gam-drin domestig a chael cefnogaeth effeithiol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i lunio cynllun i drechu achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a fydd yn creu ymateb mwy cydlynol. Wrth wraidd y gweithgarwch hwn mae'r cymorth a rown i ddiodefswyr a phobl agored i niwed. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau diodefswyr i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac rydym wrthi'n datblygu gwasanaeth arloesol sy'n canolbwyntio ar y diodefswr ac yn rhoi mwy o lais iddo.

Mae cyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn mynd y tu hwnt i blismona i'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnig cyfle i gysylltu â phartneriaid a gostwng lefelau troseddau ac aildroseddau. Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu mentrau sy'n cynnig llwybr amgen allan o'r systemau cyfiawnder troseddol ac mae prosiectau fel brysbennu 18-25 a llwybr braenaru Menywod yn darparu cyfleoedd i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol ac atal pobl rhag cyflawni trosedd - yn sgil hyn gwelir cryn dipyn yn llai o aildroseddau. Ym mis Ebrill 2016 caiff gwasanaeth newydd arloesol ei lansio sy'n cefnogi troseddswyr ag anghenion camddefnyddio sylweddau. Ailenwir y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn Ymyriadau Troseddswyr a chaiff ei ddarparu gan gonsortiw Dyfodol. Bydd y gwasanaeth hwn yn ehangu ei ffocws o gyffuriau i gamddefnyddio sylweddau'n ehangach a bydd yn darparu cymorth cyson a chydlynol drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn welliant mawr ar drefniadau blaenorol ac yn adlewyrchu'r angen i gefnogi pobl agored i niwed, boed hwy'n ddiodefswyr neu'n droseddswyr. Mae gwaith hefyd wedi bod yn mynd rhagddo ym maes iechyd meddwl ac, o ganlyniad i'n hadolygiad o iechyd meddwl, byddaf yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu lloches er mwyn lleihau'r angen i gadw unigolion



ynghelloedd yr heddlu a darparu man diogel i'r rheini sydd mewn argyfwng, gan greu cyswllt clir â dull gweithredu Llywodraeth Cymru drwy'r Concordat Iechyd Meddwl. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, gwelwyd newid sylweddol o ran y dirwedd cyfiawnder troseddol gyda'r gwasanaethau prawf yn cael eu rhannu'n ddau, sef y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Rwy'n falch bod y ddau faes wedi llwyddo i gynnal cydberthnasau gwaith cadarnhaol er gwaethaf effaith y newidiadau, sydd wedi helpu wrth uno Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru â Bwrdd Rheoli Troseddswyr Integredig De Cymru. Ynghyd ag arwain at ddull gweithredu mwy cydgysylltiedig a chysoni blaenoriaethau cyfiawnder troseddol, mae hefyd wedi lleihau nifer y cyfarfodydd y mae'n rhaid i bartneriaid fynd iddynt.

Mae'r bedwaredd flaenoriaeth yn y cynllun yn ymwneud â meysydd gwaith "sy'n cael eu datblygu". Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddatblygu dull seiliedig ar dystiolaeth o ddeall y mater cyn pennu ein dull gweithredu terfynol. Mae troseddau ar-lein, er enghraifft, yn faes sy'n datblygu a gall gwmpasu unrhyw beth o dwyll i feithrin perthynas amhriodol ar-lein, felly mae angen i ni ddeall sut mae gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r heddlu a phartneriaid er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf, a sut y gallwn gysoni'r maes hwn â gwaith presennol. Nid yw hynny'n golygu nad ymchwilir i weithgarwch troseddol yn y meysydd hyn ond er mwyn datblygu dull hirdymor mae angen i ni feithrin gwell dealltwriaeth o'r mater. Yn yr un modd, o ran deall anghenion pobl hŷn, rydym yn gweithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar feysydd fel sgambiau a throseddau stepen drws, ond mae angen deall a oes anghenion penodol y mae angen eu hystyried.

Rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi'i

wneud wrth gyflawni fy mlaenoriaethau, yn enwedig y gallu i weithio gyda phartneriaid tra'n wynebu her ariannol, lle rydym wedi parhau i geisio cyfleoedd i gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon i gymunedau. Mae hyn wedi darparu sail gadarn i ni gynnal y momentwm hwnnw yn y dyfodol ac rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu rhagor o fentrau ar y cyd drwy gyflwyno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd, yn fy marn i, yn elfen allweddol o ddiffinio gwaith amlasiantaeth ledled De Cymru yn y dyfodol.

Caiff y duedd hirdymor o ostyngiad sylweddol yn lefel troseddau a gofnodir ei hadlewyrchu hefyd yn y ffaith bod llai o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu hadrodd i'r heddlu. Mae'r ddwy siart isod yn dangos y duedd hon.



Crynodeb Ariannol 2015-2016

Cyflwyniad

Mae blwyddyn ariannol 2015-2016 yn cynrychioli'r bumed flwyddyn yn olynol i gyllid Heddlu De Cymru leihau ac mae dyraniadau Heddlu De Cymru bellach wedi'u cadarnhau fel gostyngiad o £8.6M o gymharu â 2014-2015. Er bod hyn yn gyson â'n rhagamcanion ar gyfer 2015-2016 mae'n achosi cryn bryder serch hynny. Ers 2011-2012 rydym wedi colli cyfanswm o £42.1M o'n cyllid, sef 23%. O ran canran a lleihad mewn arian parod yng Nghymru dyma'r uchaf o gymharu â'r gwasanaethau cyhoeddus eraill a ariennir yn ganolog yng Nghymru.

Mae'r Strategaeth Ariannol gyfredol i lenwi bylchau yn y gyllideb wedi bod yn gyfuniad o arbedion effeithlonrwydd rhyddhau arian parod rheolaidd a chynnydd mesuredig ym mhraesept yr heddlu a phrofwyd bod y strategaeth hon yn effeithiol a bydd yn parhau i gael ei defnyddio. Cefnogir y dull gweithredu hwn gan sylwadau Arolygiaeth Cwnstablfaeth Ei Mawrhydi bod systemau rheoli ariannol yn gryfder yn Heddlu De Cymru.

Gwnaeth y broses o gadarnhau setliad

pumed flwyddyn CSR2010 barhau i danlinellu pwysigrwydd parhaus blaengynllunio effeithiol a datblygu mesurau arbedion effeithlonrwydd i ymdopi â'r pwysau a roddir ar adnoddau Gwasanaeth yr Heddlu.


Mae'r heddlu wedi dangos cydymffurfiaeth flynyddol â'r agenda effeithlonrwydd, ar ôl wynebu rhai o'r toriadau llymaf yn y sector cyhoeddus.

Mae hefyd yn bwysig nodi, yn sgil tanariannu hanesyddol ac anghydraddoldebau'r fformiwla, y bu'n rhaid i Heddlu De Cymru ragori ar y targedau cenedlaethol i fantoli'r gyllideb, a gyflawnwyd mewn blynyddoedd diweddar drwy dorri'r gyllideb.

Perfformiad Ariannol 2015-2016 O Ble y Daeth yr Arian

Mae'r siart isod yn dangos bod bron 64% o'n cyllid yn dod o ffynonellau'r Llywodraeth, gyda'r gweddill yn dod o gasglu praeseptau treth gyngor lleol. Mae hyn yn tanlinellu'r ddibyniaeth barhaus ar gyllid canolog ac yn pwysleisio'r effaith a gaiff gostyngiadau pellach.

O ran treth gyngor Band D, Heddlu De



Cymru yw'r isaf o hyd yng Nghymru. Mae'r ffigurau cymaradwy ar gyfer 2015-2016 fel a ganlyn:

Heddlu	£
De Cymru	199.86
Gwent	211.62
Dyfed Powys	200.07
Gogledd Cymru	235.44

Perfformiad Ariannol 2015-2016 Sut y Cafodd yr Arian ei Wario

Mae'r siart isod yn dangos sut y cafodd cyllideb 2015-2016 ei gwario yn unol â'r dadansoddiad o amcanion cenedlaethol yr heddlu.


Cronfa Diogelwch Cymunedol

Es ati i wella'r ffordd roeddwn yn gweithio gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol a throeddwy'r ifanc rhwng mis Ebrill 2015 a 2016 drwy ganolbwyntio ar gydweithio'n fwy hyblyg gyda phartneriaid yn eistedd o amgylch yr un bwrdd, rhannu penderfyniadau er mwyn cyflawni amcanion a rennir, yn hytrach na chynnig arian grant

sy'n gysylltiedig â gwaith penodol fel 'cyllid allanol'.

Wrth gwrs, rwyf eisoes wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn datblygu amcanion a rennir sy'n gyson â Chynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau drwy ein prosesau cynllunio a thrwy fforymau megis De Cymru Mwy Diogel, yn ogystal â thrwy gyfarfodydd un i un rheolaidd ac ystyriaif mai ymdrin â materion ariannol drwy weithio mewn partneriaeth yw'r cam nesaf naturiol. Sicrheir prosesau craffu a goruchwylio drwy fy nghyfranogiad i neu fy nhîm fel aelodau o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (neu fforwm cyfatebol) a'r Bwrdd Gwasanaethau Troseddwy'r Ifanc, gan rannu'r gwaith o wneud penderfyniadau a monitro perfformiad y bartneriaeth gyfan yn hytrach na thrwy brosesau monitro biwrocraataidd sy'n gysylltiedig â meysydd gwaith cyfyngedig sy'n digwydd bod yn cael arian grant.

Yn ogystal â chynnal lefelau cyllid blaenorol hyd at 2015-2016, ym mis Rhagfyr 2014 nodais fy mwriad, yn amodol ar gyllidebau a Grant yr Heddlu, i gynnal lefelau cyllid craidd i bob Awdurdod Lleol, fel yr awdurdod â chyfrifoldeb am yr ardaloedd



partneriaeth hyn dros gyfnod o ddwy flynedd i fynd â ni hyd at fis Mawrth 2017 – er mwyn rhoi sefydlogrwydd mawr ei angen yn yr hyn sy'n parhau i fod yn hinsawdd ariannol anodd iawn i'n partneriaid yn Ne Cymru. Dangosir y dyraniadau yn Atodiad 2.

Y Gronfa Bartneriaeth

Defnyddir y Gronfa Bartneriaeth i ariannu gwariant nad yw'n rheolaidd. Rhydd yr ysgogiad ariannol i gychwyn prosiectau newydd.

Mae wedi bod yn hynod ddefnyddiol o ran darparu'r arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Troseddau Treisgar ac Atal Troseddau ac Aildroseddau yn y Grŵp Oedran 18-25, sy'n elfennau allweddol o Gynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau ac sydd wedi cael cryn dipyn o gyllid gan y Swyddfa Gartref (gweler y Gronfa Arloesi isod). Yn 2015-2016 cafwyd gwariant cyffredinol o £818,000.

Ceir tabl sy'n crynhoi'r cyllid a ddarparwyd yn 2015-2016 yn Atodiad 1.

Gwasanaethau Dioddefwyr

Ffocws Dioddefwyr De Cymru

Ffocws Dioddefwyr De Cymru yw'r enw newydd ar y prif wasanaeth cymorth a ddarperir yn Ne Cymru gan Cymorth i Ddioddefwyr. Mae'r gwasanaeth newydd wedi'i gynllunio i adeiladu ar yr holl brofiad o fewn Cymorth i Ddioddefwyr er mwyn darparu gwasanaeth lleol sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Mae tri Thîm Ffocws Dioddefwyr lleol bellach ar waith yn y de ac maent yn cynnwys staff a gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.

Mae Ffocws Dioddefwyr De Cymru yn deall bod mwy ynghlwm wrth anghenion dioddefwyr na'r math o drosedd sydd dan sylw'n unig a bod pawb yn wahanol. Bydd y timau lleol yn gweithio gyda phawb yn unigol er mwyn deall y ffordd orau o helpu a byddant yn ymateb i amgylchiadau newidiol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn

cydnabod y sgil effaith a gaiff trosedd yn aml ac, felly, mae ar gael i unrhyw un yr effeithiwyd arno, gan gynnwys dioddefwyr, ffrindiau a theulu.

Mae'r Timau Ffocws Dioddefwyr wedi'u lleoli ochr yn ochr â phartneriaid a'r heddlu yn y gymuned ac maent eisoes yn chwarae rhan bwysig sy'n tawelu meddyliau. Caiff gwefan newydd ei lansio ym mis Tachwedd a fydd yn rhannu manylion y gwasanaeth, gan alluogi pobl i gael cymorth ar-lein a bydd yn rhoi cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr.

Cydlynnydd Llais y Dioddefwr

Mae Cydlynnydd Llais y Dioddefwr yn gweithio i ddatblygu dulliau o gynnwys dioddefwyr ar bob cam o'r broses o gynllunio, datblygu ac adolygu gwasanaethau dioddefwyr. Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwaith hwn yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod blaenoriaethau strategol, cyfeiriad a phenderfyniadau cyllido'r Comisiynydd mewn perthynas â gwasanaethau dioddefwyr yn cael eu llywio gan brofiadau a barn y sawl y mae trosedd wedi effeithio arnynt yn Ne Cymru. Bydd y gwersi hyn hefyd yn cael eu defnyddio i lywio meysydd gwaith Heddlu De Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, a sefydliadau partner.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu grwpiau ymgynghori gyda dioddefwyr a thystion yn Ne Cymru er mwyn deall eu profiadau o fynd i'r llys. Mae hon yn fenter gydweithredol gyda phartneriaid o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Heddlu De Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion. Caiff yr hyn a ddysgir ei rannu â phob partner er mwyn gwneud newidiadau a gwella gwasanaethau ledled y de.

Cynigion cronfa arloesi

Cyfuno Prosiectau

Mae'r rhaglen Cyfuno yn parhau i ddefnyddio technolegau plismona ac yn arwain y gwaith o wella'r gwasanaeth a ddarparwn i gymunedau De Cymru, gan wella gweladwyedd ac effeithlonrwydd gweithredol. Mae dyfeisiau symudol eisoes wedi cael eu rhoi i staff rheng flaen sy'n cynnwys yr ap plismona penodol, 'iPatrol', sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i systemau plismona lleol a chenedlaethol, megis Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Ar ddechrau 2017 dechreuir defnyddio technoleg Camera Fideo a Wisgir ar y Corff, a fydd yn cynnig ffordd ddynamig a thryloyw o gasglu tystiolaeth. Ymhlith y mentrau eraill mae 'cynllun peilot rhagfynegi plismona', system pennu tasgau a briffio IR3 newydd, a chyflwyno dyfeisiau gliniadur sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o amgylcheddau gwaith mwy ystwyth. Bydd gwefan newydd sbon hefyd yn cynnig mwy o wasanaethau digidol i'n cymunedau, gan gynnwys gwasanaethau megis rhoi gwybod am droseddau a'u holrhain ar-lein.

Gostwng Aildroseddau yn y grŵp oedran 18-25

Nod Brysbennu 18-25, dan arweiniad Media Academy Cardiff ac Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf, oedd helpu oedolion ifanc sydd wedi cyflawni trosedd lefel isel neu eu troseddau cyntaf i osgoi'r system cyfiawnder troseddol, a'u cyfeirio at ymyriadau cymunedol, a gynlluniwyd i ymdrin â phrif achosion a ffactorau gwaethyngol eu hymddygiad troseddol. Mae i'r prosiect ffocws cyfiawnder adferol ac mae'r ymyriadau yn canolbwyntio ar y dioddefwr ac yn cael eu harwain ganddo yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.

Mae rheolwyr achos Brysbennu 18-25 wedi'u lleoli'n ddelfrydol yn holl garcharau Heddlu

De Cymru sy'n galluogi ymyrraeth amserol ac effeithiol pan wneir y cswllt cyntaf, ynghyd â'u cyfeirio'n effeithlon at ymyriadau cymunedol megis; gweithdai canlyniadau trosedd; gweithgareddau meddwl canlyniadol; rhyngweithio â dioddefwyr lle bo'n briodol, ac ystod eang o grwpiau ffocws sy'n cwmpasu materion iechyd a gofal cymdeithasol megis: camddefnyddio sylweddau ac alcohol; problemau iechyd meddwl; e-droseddau megis secstio a phorn dial. Gellir hefyd drefnu gwaith achos unigol ac atgyfeiriadau at wasanaethau statudol o'r pwynt hwn.

Ers ei sefydlu yn 2014, mae'r prosiect wedi arwain at ostyngiad o 11% mewn aildroseddau ar draws ardal De Cymru.

Ym mis Mehefin 2016, enillodd Media Academy Cardiff Wobr Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru am brosiectau sy'n anelu at wella iechyd a lles pobl ifanc.

Troseddau Treisgar

DrinkAware

Staff sy'n fyfyrwyr sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig ac sy'n gweithio mewn lleoliadau i helpu i gadw myfyrwyr yn ddiogel ar noson allan yw Criw Drinkaware. Bydd aelodau'r criw yn gweithio fesul pâr gydag aelodau eraill o staff megis timau diogelwch a bar er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael noson ddiogel lle mae'r risg o niwed wedi ei lleihau. Maent yn gwneud hyn drwy:

- Hyrwyddo ac annog awyrgylch cymdeithasol cadarnhaol
- Cynorthwyo cwsmeriaid sydd eisoes mewn trallod neu drafferth (e.e. pobl sydd wedi colli eu ffrindiau, sy'n sâl, sydd ddim yn siŵr sut i gyrraedd adref)

Lleolir criwiau ar draws ardal Heddlu De Cymru yn yr ardaloedd canlynol:

Caerdydd: Pryzm (bob nos Lun), Soda Bar

(bob Nos Fercher) ac Undeb y Myfyrwyr bob nos Fercher a nos Sadwrn

Abertawe: Walkabout, Idols a Fiction (bob nos Fercher) Sin City (bob nos Iau) a Chlwb Nos Divas (bob nos Wener)

Trefforest: Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru

Mae'r rhaglen waith hon hefyd yn cynnwys ymgyrch cyfryngau cymdeithasol o'r enw 'Wouldn't Shouldn't', hynny yw, os na fydddech yn gwneud rhywbeth yn sobr ni ddylech ei wneud yn feddw sy'n anelu at ymdrin ag aflonyddu rhywiol ac achosion o gyffwrdd yn amhriodol o fewn yr economi liw nos.

Gwybod y Sgôr

- Adroddiad gan Brifysgol John Moores Lerpwl. Canfyddiadau allweddol: Mae bod yn ymwybodol ei bod yn anghyfreithlon i rywun y tu ôl i'r bar werthu alcohol i rywun meddw wedi cynyddu'n sylweddol o 48% i 62.4%, cynyddodd cyfran y cyfranogwyr a nododd yn gywir ei bod yn anghyfreithlon i brynu alcohol i ffrind meddw yn sylweddol o 50.2% i 63.4%. Argymhelliad allweddol: dylai'r ymyrraeth hon barhau a chael ei datblygu'n elfen barhaus o raglen waith ehangach

Data ac ymchwil lechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'n pwyntiau cyswllt lleihau trais unigol o fewn yr Heddlu i ddiwygio adroddiadau lechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol wrth lywio ein dull plismona.
- Lluniwyd adroddiad lechyd Cyhoeddus Cymru ar brofiadau'r cyhoedd o ddefnyddio tacsis Hackney Caerdydd yn yr economi liw nos a bydd yn llywio trafodaethau amlasiantaeth â'r awdurdod lleol ynghylch sut i ymdrin â phroblemau trafndiaeth yn yr economi liw nos

Man Cymorth - Blaenoriaeth

- Lluniwyd yr adroddiad gwerthuso economaidd gan Ganolfan Economeg Iechyd Abertawe. Amcangyfrifir bod y Man Cymorth yn rhyddhau £655,360 o wariant ar wasanaethau cyhoeddus, neu £420 fesul unigolyn.
- Camau nesaf: Ymgorffori system casglu data newydd damweiniau ac achosion brys Symphony o fewn y Man Cymorth y flwyddyn nesaf, a fydd yn ein galluogi i groesgyfeirio gwybodaeth cleifion a nodi arbedion ariannol damweiniau ac achosion brys mewn modd cadarn.

Adolygiad Trwyddedu

Mae adolygiad o Drwyddedu wedi nodi bod angen un polisi Trwyddedu cyffredinol a gefnogir gan ganllawiau gweithredol. Bydd y ddogfen hon yn sicrhau yr ymdrinnir â thrwyddedu mewn modd corfforaethol a all wrthsefyll proses graffu mewn amgylchedd gweithredol a chyfreithiol. Bydd hefyd yn amlinellu nodau ac amcanion y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau o ran ymdrin â chamddefnyddio alcohol, troseddau treisgar ac anhrefn cysylltiedig. Bydd y canllawiau gweithredol yn rhoi arweiniad clir i'n staff ac yn meithrin hyder yn ein gallu i wirio, profi a gorfodi'r ddeddfwriaeth gymwys. Er cysondeb, mae'r adolygiad wedi nodi'r angen i gyflwyno'r 'System Goleuadau Traffig' a ddefnyddir gan Uned Reoli Sylfaenol y Dwyrain ledled ardal yr heddlu, gan sicrhau y caiff ei gweithredu yn yr un ffordd fwy neu lai. Nododd yr adolygiad fod diffyg hyfforddiant perthnasol ar gyfer swyddogion trwyddedu. Felly, caiff llwybr Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Swyddogion Trwyddedu ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod gan staff y wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gyflawni eu rôl yn effeithiol. At hynny, sefydlwyd gweithgor Trwyddedu â chynrychiolaeth o'r pedair Uned Reoli Sylfaenol er mwyn cyflawni'r holl welliannau a nodwyd yn yr adolygiad.

Partneriaeth Alcohol Gymunedol

- Lansiodd y Bartneriaeth Alcohol Gymunedol sy'n anelu at ymdrin ag yfed dan oed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mhontardawe ac mae'n cael ei datblygu ym Mhorth, Rhondda Cynon Taf.

Strategaeth

- Rydym yn bwydo i mewn i ddogfennau strategol perthnasol ein partneriaid, er enghraifft strategaeth economi liw nos Cyngor Caerdydd.
- Camau nesaf: datblygu ein strategaeth ein hunain ar gyfer gostwng troseddau treisgar. Caiff Grŵp Llywio ar gyfer De Cymru ei sefydlu gyda phartneriaid er mwyn llywio'r strategaeth hon wrth symud ymlaen.

Trais yn erbyn menywod a merched

Mae cam-drin domestig yn rhan o fusnes craidd yr heddlu ac rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r drosedd hon - o adeg yr alwad a'r ymateb cyntaf gan swyddogion, i'r ymchwiliad a'r camau dilynol sy'n cael eu cymryd i ddiogelu dioddefwyr. Credwn fod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o gam-drin domestig. Yn ystod 2015-16 rydym wedi gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau yn y sector statudol a gwirfoddol yn Ne Cymru er mwyn mynd i'r afael â cham-drin domestig a'r gwahanol fathau o drais yn erbyn menywod a merched.

Mae ein hymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth wedi parhau yn ystod 2015-16, drwy ddarparu arian i sefydlu gwasanaethau creadigol ac arloesol er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Rydym yn falch o fod wedi arloesi nifer o fentrau gyda'n partneriaid i wella diogelwch dioddefwyr a dwyn troseddwyd i gyfrif, gan gynnwys:

IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch)

Rydym wedi cyd-ariannu camau i roi IRIS ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf drwy fuddsoddi mewn rhaglen hyfforddi ac atgyfeirio eiriolaeth ym maes cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn meddygfeydd. Ni yw'r unig un o ardaloedd yr heddlu sy'n darparu'r gwasanaeth unigryw hwn. Mae IRIS yn gwella ymatebion a mynediad dioddefwyr at gymorth ac eiriolaeth mewn lleoliad gofal iechyd sylfaenol. Mae IRIS bellach ar waith mewn 25 o Feddygfeydd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ac, o ganlyniad i lwyddiant y fenter, mae'n cael ei rhoi ar waith yn y 46 o Feddygfeydd yn ardal Cwm Taf.

Drwy ddarparu arian, sefydlwyd nifer o brosiectau iechyd sy'n ceisio gwella diogelwch, lles a phrofiadau iechyd dioddefwyr/cleifion sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae buddsoddi mewn datblygu darpariaeth IDVA seiliedig ar iechyd a datblygu rolau diogelu lefel uwch ym Myrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg wedi helpu i nodi problemau diogelu posibl yn gynt, gwella, cofnodi a rhannu gwybodaeth ac, o ganlyniad, gynyddu nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau eiriolaeth a chymorth.

Rydym wedi ymateb i'r angen i wella hyfforddiant ym maes cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dangosodd adborth gan swyddogion fanteision canolbwyntio ar y dioddefwr mewn hyfforddiant a wnaeth helpu i feithrin dealltwriaeth swyddogion o ddynameg cam-drin domestig ac, o ganlyniad, ennyn eu hyder wrth ymateb i ddigwyddiadau.

Mae Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd wedi datblygu a gweithredu strategaeth arloesol i recriwtio a hyfforddi 24 o swyddogion gwrywaidd i ddod yn Hyrwyddwyr Rhuban

Gwyn, gyda'r nod y byddant yn helpu i herio agweddau a chodi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a merched. Yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth, mae pob Hwrwyddwr Rhuban Gwyn wedi cael hyfforddiant a'r cyfle i nodi meysydd i'w gwella, nodi atebion a gwneud cyfraniad pwysig at ein hymgyrchoedd.

Tua diwedd 2015-16, dechreuwyd gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion er mwyn datblygu model nodi ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer personél allweddol a gwasanaeth eirioli i fyfyrwyr mewn addysg bellach neu addysg uwch ac sydd yn neu wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol. Caiff yr ymyrraeth unigryw hon ei datblygu ymhellach yn 2016-17 a'i gwerthuso.

Nodi ac Ymyrryd yn Gynnar

Dangosodd Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentynod (ACE) lechyd Cyhoeddus Cymru fod cysylltiad rhwng digwyddiadau trawmatig a llawn straen y gall plant eu profi wrth dyfu i fyny a'r tebygolrwydd o broblemau plismona a chyfiawnder troseddol yn ddiweddarach. Dangosodd astudiaeth ACE Cymru fod unigolion a oedd wedi profi pedwar ACE neu fwy:

- 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni **trais** yn erbyn person arall yn y 12 mis diwethaf
- 20 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu **carcharu** unrhyw bryd yn ystod eu bywyd
- 14 gwaith yn fwy tebygol o fod yn **ddioddefwyr** trais yn y 12 mis diwethaf

Mae'r dystiolaeth bod 14% o oedolion (rhwng 18 a 69 oed) wedi profi pedwar ACE neu fwy (o dan 18 oed) yn golygu bod hwn yn fater hynod bwysig i blismona a'r System Cyfiawnder Troseddol i gyd. Dyna pam mai ymyrraeth gynnar oedd thema "Uwchgynhadledd" a gynhaliwyd ar y cyd â'r Prif Gwnstabl ym mis Ionawr 2016 a'i bod yn

elfen allweddol o Gynllun yr Heddlu a Throseddau 2016-2021 a lanswyd yn yr Uwchgynhadledd honno.

Fodd bynnag, gall plentyn sy'n profi pedwar ACE neu fwy fyw am 70 mlynedd arall, ac mae'n rhaid i'r heddlu ymateb i weithredoedd sy'n niweidio eraill drwy gydol bywyd person. Un o egwyddorion allweddol Heddlu De Cymru yw ymyrryd yn gynnar pryd bynnag y bydd problemau yn dechrau dod i'r amlwg.

Felly, y flaenoriaeth glir a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddau, yn seiliedig ar y dystiolaeth, yw Ymyrryd yn Gynnar a Gweithredu Buan a Chadarnhaol.

Ymhlith y Profiadau Niweidiol mewn Plentynod mae: cam-drin plant (corfforol, rhywiol neu emosiynol); teulu yn chwalu; gweld neu glywed trais domestig; neu fyw mewn cartref lle y camddefnyddir sylweddau, neu lle ceir salwch meddwl neu lle mae rhywun yn y carchar.

Mae'r Prosiect Ymyrryd yn Gynnar a Gweithredu Buan a Chadarnhaol: Torri'r Cylch Troseddau Cenedliadol yn ceisio ymdrin â'r diffyg gweithgarwch ymyrryd yn gynnar ac atal pan fo ACEau yn amlwg a phan fo teuluoedd yn wynebu risg o'r canlyniadau gwael a nodir uchod, yn enwedig ymwneud â chyflawni trosedd.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu De Cymru, ynghyd â'r dystiolaeth o astudiaeth ACE, a chaiff ei ariannu drwy gynnig llwyddiannus i Gronfa Arloesedd yr Heddlu y Swyddfa Gartref gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Nod y prosiect, gyda chymorth lechyd Cyhoeddus Cymru ac asiantaethau partner eraill gan gynnwys yr NSPCC, yw meithrin dealltwriaeth o effaith ACEau ar bobl yn Ne Cymru a nodi cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar a gweithredu'n fuan ac yn gadarnhaol.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiectau

Adolygiad Thematig o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Nod Adolygiad Thematig o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yw lleihau ymhellach nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal De Cymru.

Rydym yn falch o fod wedi cael gradd 'rhagorol' gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM am ein hymatebion i ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond, cydnabuwyd bod mwy y gallem ei wneud o hyd, dull rhagweithiol. Cytunodd y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar adolygiad thematig a chomisiynwyd Athrofa Wyddonol yr Heddlu yng Nghaerdydd i'n helpu yn hyn o beth.

Mae'r adolygiad wedi arwain at nifer o newidiadau ac argymhellion ar gyfer gweithredu pellach, sef:

- Adnoddau newydd o fewn uned Ffôn Dioddefwyr yr Heddlu, yn benodol i feithrin dealltwriaeth o lefelau boddhad dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gweithio gyda'n partneriaid i nodi'r rhwystrau i weithio mewn partneriaeth, prif faterion rhannu gwybodaeth lle mae prosesau newydd bellach wedi'u cyflwyno er mwyn trosglwyddo gwybodaeth rhwng Heddlu De Cymru, awdurdodau lleol a'n landlordiaid cymdeithasol. Cynlluniwyd hyn i wella cydberthnasau gwaith gan arwain at well canlyniadau i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Datblygu fframwaith perfformiad newydd ynghyd â chyfarfodydd yn benodol ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hyn yn golygu y gellir cynnal adolygiad parhaus o alw a pherfformiad o fewn yr Heddlu, ynghyd ag addasu polisïau a gweithdrefnau'r Heddlu er mwyn sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu.
- Adolygu sut rydym yn nodi ac yn ymateb i ardaloedd â phroblemau ac yn ymgysylltu â'n cymunedau. Gwaith newydd i dreialu strategaethau patrolau a ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau. Arolygon yn cael eu cynnal i brofi'r budd i'r cyhoedd.
- Datblygu gwasanaethau newydd er mwyn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai â phroblemau iechyd meddwl.

Bydd y Comisiynydd, Alun Michael, a'r comisiynydd cynorthwyol, Bonnie Navarra, sy'n cyflawni rôl a rennir â Llywodraeth Cymru, yn dechrau rhaglen waith newydd â Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar ymatebion landlordiaid cymdeithasol i sefyllfaoedd bregus pobl, gyda'r nod o sicrhau mwy o gysondeb o ran arfer gorau i'n cymunedau. Bydd hyn yn ategu'r holl waith a gyflawnir o fewn yr heddlu.

Atal Troseddau

Mae Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, wedi bod yn gweithio gydag asiantaethau partner a chymunedau lleol i ddatblygu dull newydd o ymdrin â throseddau stepen drws a galwyr diwahoddiad.

Yn ôl y ffigurau, dywedodd 93% o'r bobl a gymerodd ran yn arolwg Heddlu De Cymru yn ddiweddar nad oeddent am i werthwyr stepen drws alw yn eu cartrefi, ond eto i gyd, nododd 29% fod galwyr diwahoddiad wedi galw yn ystod y tri mis diwethaf, gyda 25% yn dweud bod rhai masnachwyr wedi bod yn galw dro ar ôl tro. Er mwyn atal masnachwyr diwahoddiad o'r fath, mae Alun Michael wedi cyflwyno llyfryn sy'n hysbysu preswylwyr o'u hawliau. Mae hwn hefyd yn cynnwys sticer y gellir ei arddangos ar neu ger drws ffrynt deiliad tŷ sy'n ei gwneud yn glir nad oes croeso i alwyr stepen drws na masnachwyr diwahoddiad. Cynhyrchwyd y llyfryn a'r sticer ar y cyd â Safonau Masnach,

y Comisiynydd Pobl Hŷn, Age Cymru, ac awdurdodau lleol. Cafwyd adborth gan fwy na 100 o bobl mewn grwpiau ffocws a gynhaliwyd ym mhob un o'r saith awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod y llyfryn a'r sticer yn diwallu anghenion ein cymunedau.

Cymerodd preswylwyr o Borthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr a Sandfields, Port Talbot ran yn y cynllun peilot ar gyfer y prosiect hwn a chawsant sticer a llyfryn. Nododd 33% o bobl, cyn cael yr adnoddau hyn, eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth neu ddim gwybodaeth o gwbl am bwy i ffonio i gael cyngor neu gymorth i ddelio â galwyr niwsans stepen drws a masnachwyr diwahoddiad. Yn ogystal â hyn, dywedodd 95% o'r preswylwyr a gymerodd ran yn yr arolwg y byddent yn arddangos y sticer ger eu drws ffrynt er mwyn atal galwyr niwsans a masnachwyr diwahoddiad, ac roeddent yn falch o gael yr adnoddau hyn sy'n nodi eu hawliau fel deiliad tŷ yn glir.

Cafwyd yr holl ffigurau drwy arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan Heddlu De Cymru a nododd, allan o'r 1,104 o bobl a gymerodd ran, fod 97% wedi dweud nad oeddent am i fasnachwyr stepen drws diwahoddiad alw heibio.

Bydd timau Plismona yn y Gymdogaeth, gwirfoddolwyr yr heddlu ac asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd i ddosbarthu'r llyfryn a'r sticer i gartrefi unigol, gan dargedu'r ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf. Yn ogystal, caiff ffilm am yr ymgyrch, sy'n cynnwys partneriaid allweddol ac astudiaeth achos wedi'i ffilmio gyda dioddefwr trosedd stepen drws yn sôn am ei brofiad, ei rhoi i'r cyfryngau a'i rhannu ar gyfryngau cymdeithasol hefyd.

Ymdrin â chamfanteisio'n rhywiol ar blant

O ganlyniad i'r adolygiad thematig o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, y galwodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De

Cymru amdano ddechrau 2015, argymhellwyd datblygu gwasanaeth ôl-drafod er mwyn sicrhau yr ymgysylltir â phobl ifanc sy'n agored i niwed ac mewn perygl o gael pobl yn camfanteisio'n rhywiol arnynt. Roedd llawer o bobl ifanc yn Ne Cymru o'r farn bod angen math arbennig o berson i ddatgelu'r nodweddion agored i niwed sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Yn aml, mae plant a phobl ifanc yn ei chael yn anodd datgelu pethau i weithwyr proffesiynol a welir fel ffigyrau mewn awdurdod megis athrawon, yr heddlu neu weithwyr meddygol proffesiynol. Fodd bynnag, nododd llawer o bobl ifanc yn ystod yr adolygiad ei bod yn haws iddynt gyfathrebu â gweithwyr ieuencid neu bobl o sefydliadau trydydd sector.

Eiriolwyr Plant

Cafodd yr Eiriolwyr Plant eu cyfweld gan aelodau o fwrdd y Prosiect a oedd yn cynnwys heddlu gweithredol, Barnardo's a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Lleolir yr Eiriolwyr yn y pedair Uned Reoli Sylfaenol yng Nghaerdydd, Pontypridd (yn y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth - neu MASH), Abertawe a'r Bontfaen. Disgwyliwyd i'r bobl a fyddai'n cyflawni'r rolau hyn feddu ar brofiad o ymdrin â phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau diogelu sy'n briodol i ymdrin â phobl ifanc sy'n agored iawn i niwed ac mewn perygl o gael rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae'r pedwar Eiriolwr yn brofiadol iawn wrth ymdrin â phlant mewn ffordd sensitif sy'n eu hannog i ddatgelu. Y technegau cyfathrebu sy'n gyffredin i'r holl Eiriolwyr yw Dulliau Adferol, Technegau Cyfweld Cymelliannol a chyfoeth o brofiad wrth ymdrin ag asiantaethau partner. Maent i gyd yn dod o gefndir Gwasanaeth Ieuencid neu Barnardo's.

Mae eu rôl yn cynnwys:

- Cyfweliadau dychwelyd adref â phlant

sydd ar goll a, lle y bo'n briodol, gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant y camfanteisiwyd arnynt neu sydd mewn perygl o gael pobl yn camfanteisio arnynt.

- Gweithio gydag unigolion addysgu proffesiynol a grwpiau anodd eu cyrraedd. Sicrhau y gallem gefnogi dioddefwyr a thystion sy'n blant drwy'r system cyfiawnder troseddol.
- Nodi cynllun ysgogi ymchwiliol ac amlasiantaeth neu ddarpariaeth i gynorthwyo'r rhai sydd mewn perygl.
- Cefnogi ymyrraeth gynnar a chamau ataliol rhyngasiantaethol, sef paratoi, atal, amddiffyn ac erlyn.
- Cael gwybodaeth i ddadansoddi achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chael gwell dealltwriaeth o'r broblem ledled de Cymru.
- Sicrhau bod plant sydd mewn addysg prif ffrwd neu blant nad ydynt mewn addysg brif ffrwd yn cael cymorth mewn perthynas â Chydberthnasau Iach a Lles.
- Cefnogi dioddefwyr neu'r sawl sydd mewn perygl drwy'r ffaith bod y System Cyfiawnder Troseddol yn defnyddio ymyriadau amlasiantaethol er mwyn blaenoriaethu'r sawl sydd yn y perygl mwyaf.
- Gweithio gydag unigolion a grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Gweithio mewn partneriaeth yn ôl cyfarwyddyd y tîm gweithredol o weithwyr proffesiynol a llunio rhaglen i amddiffyn y sawl sydd mewn perygl.

Prif nod Eiriolwyr Plant yw ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o gael pobl yn camfanteisio'n rhywiol arnynt a'u diogelu rhag niwed. Yn y pen draw, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddigon cyfforddus i siarad yn onest

â'r ymarferwyr fel y gallwn eu cefnogi. Wrth i ni gael mwy o ddatgeliadau, bydd prosesau casglu data yn dod yn fwy cadarn, gan alluogi Heddlu De Cymru i barhau i ddatblygu strategaethau i ymdrin â'r sawl sy'n camfanteisio'n rhywiol ar bobl ifanc.

Gwaith partneriaeth rhwng gwahanol asiantaethau sy'n sicrhau ein bod yn diogelu pobl ifanc tra hefyd yn sicrhau bod tramgwyddwyr yn cael eu hatal rhag achosi niwed.

Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod llai o unigolion â phroblemau iechyd meddwl/anableddau dysgu yn dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol

Edrychodd y prosiect amlasiantaeth ar ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar fel bod unigolion â phroblemau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu yn cael eu hatal rhag dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol. Cafodd y prosiect ei gomisiynu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2013.

Yn ystod dwy flynedd y prosiect, defnyddiwyd dulliau ymchwilio ansoddol a meintiol er mwyn pennu i ba raddau y cadwyd unigolion yn y ddalfa a sut y gall cyflwyno opsiynau amgen sy'n osgoi cadw rhywun yno atal unigolion rhag profi stigma yn sgil cofnod ar system gofnodi NICHE yr heddlu neu gael eu hasesu gan wasanaethau iechyd meddwl ac yna gael cofnod clinigol na fydd angen iddynt o bosibl ddefnyddio gwasanaethau byth eto. Nifer gyfartalog yr unigolion a aseswyd yn ystod y ddwy flynedd na chawsant unrhyw asesiad dilynol ar ôl eu cadw oedd 45%.

Cafodd yr adroddiad terfynol o ran gyntaf y prosiect ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2015. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae arweinydd y prosiect wedi bod yn

gweithio'n agos gydag arweinydd y Concordat Gofal mewn Argyfwng yng Nghymru.

Nododd yr adroddiad nifer o argymhellion, y mae rhai wrthi'n cael eu datblygu ond maent hefyd wedi dylanwadu ar y Concordat Gofal mewn Argyfwng yng Nghymru.

Yr argymhellion oedd:

- Datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd:
 - i) Datblygu Lloches Argyfwng (Mae hyn nawr ar waith)
 - ii) Dylid gwneud rhagor o waith gyda gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol a meddygon teulu er mwyn nodi cyfleoedd i gyfeirio unigolion at wasanaethau priodol yn gyflymach ac yn fwy uniongyrchol, er enghraifft atgyfeiriadau uniongyrchol at wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol. Dylid gwneud rhagor o waith gydag adrannau tai er mwyn dylanwadu ar lwybrau gofal, lleoliadau a mynediad i dai priodol pan fo angen. (i'w ddatblygu)
- Helpu staff i wneud gwell penderfyniadau
 - i) Dylai Heddlu De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio er mwyn datblygu adnodd gwneud penderfyniadau (i'w ddefnyddio fel ap) ar gyfer swyddogion yr heddlu (ac eraill fel y Gwasanaeth Ambiwlans, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig). (Mae hyn nawr ar waith)
 - ii) Gan adeiladu ar lwyddiant hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr mewn agweddau eraill ar ddiogelu o fewn Heddlu De Cymru, dylid rhoi gwell hyfforddiant i staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn datblygu eu sgiliau ymdrin â galwadau wrth reoli pobl agored i

niwed gan ddefnyddio sefydliad trydydd sector fel y Samariaid i ddarparu hyfforddiant a chymorth.

- iii) Dylai Heddlu De Cymru gefnogi lleoli staff sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth o lenyddiaeth a rhai safleoedd gweithredu cynnar yn Lloegr. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall brysbennu dros y ffôn leihau'r defnydd o a136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl gyda chanlyniadau mwy cadarnhaol i unigolion mewn argyfwng iechyd meddwl (Mae hyn yn cael ei ystyried bellach).

Gwnaed dadansoddiad pellach o'r data meintiol, yn enwedig o ran yr unigolion hynny a gadwyd o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ar fwy nag un achlysur. Nodwyd grwpiau penodol o bobl a lluniwyd adroddiad ar bob grŵp penodol:

1. Unigolion â diagnosis anhwylder personoliaeth
2. Unigolion sydd wedi defnyddio sylwedd (cyffuriau a/neu alcohol)
3. Y digartref
4. Cyn-filwyr
5. Pobl ifanc yn enwedig 'plant sy'n derbyn gofal'

Rhaglen y Gweithlu Cynrychioliadol

Mae'r Comisiynydd wedi herio'r heddlu i recriwtio a chadw gweithlu sy'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir ganddo ac mae hyn yn nodweddiadol yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau.

Yn dilyn ein hadolygiad thematig ar y cyd o recriwtio, datblygu a chadw grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn 2014, mae'r

Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi bod yn cyflawni rhaglen y Gweithlu Cynrychioliadol ar y cyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r prosiect wedi sefydlu cynllun Hyrwyddwyr Datblygu, gan olygu y gall unrhyw aelod o'r gymuned sy'n perthyn i grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd â diddordeb mewn gweithio i Heddlu De Cymru gael mentor i'w gefnogi drwy'r broses recriwtio. Mae'r rhaglen hefyd yn cyflawni llawer o weithgareddau i wella'r broses o ymgysylltu â chymunedau a gweithio mewn partneriaeth, fel y gallwn gynyddu nifer y bobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n gwneud cais am swydd gyda ni a dileu rhai o'r rhwystrau sydd wedi bodoli'n flaenorol i rai cymunedau sy'n dymuno ymuno â ni. Rydym hefyd wedi sefydlu strategaeth Ddatblygu fewnol er mwyn i gyflogeion presennol o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gael anogaeth a chefnogaeth i ddatblygu drwy'r strwythurau rheng a gradd. Ers sefydlu gwaith prosiect grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig rydym wedi gweld nifer y ceisiadau swydd gan bobl o'r fath yn cynyddu'n sylweddol ac mae'n dda gweld bod mwy ohonynt bellach yn ymuno â'n sefydliad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i ni wasanaethu ein cymunedau amrywiol yn y ffordd orau bosibl.

Yn dilyn llwyddiant recriwtio a datblygu pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, rydym wedi cynnal adolygiad o brosesau recriwtio, cadw a datblygu menywod dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi edrych ar ffyrdd o feithrin dealltwriaeth o sut y gallwn ymdrin â thangynrychiolaeth swyddogion benywaidd ac mae'n rhoi gwell cefnogaeth i'n holl gyflogeion benywaidd yn eu rolau fel eu bod yn cael eu hannog i aros gyda ni a datblygu. Mae'r adolygiad wedi arwain at ddatblygu Cynllun Heddlu De Cymru ar

gyfer Recriwtio, Datblygu a Chadw Swyddogion Benywaidd a chaiff ei ddatblygu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r Cynllun yn anelu at gyflwyno newid polisi a mentrau newydd er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i fenywod yn y gweithle.

Llywodraethu


Strwythur Llywodraethu

Ers dod yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu rwyf wedi gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ddatblygu strwythur llywodraethu clir a fydd yn ein galluogi i ddarparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd priodol.

Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth undyn ar wahân o fewn pob Heddlu - y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau clir ac ar wahân a ddeallir yn dda yn Ne Cymru. Diogelir annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl mewn deddfwriaeth, gyda'r cyfrifoldeb am gyflawni'r blaenoriaethau wedi'i nodi yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu'r Comisiynydd. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd

hyrwyddo gwaith partneriaeth a gostwng troseddu, diogelu annibyniaeth weithredol swyddogion yr heddlu, bod yn llais y cyhoedd (yn enwedig dioddefwyr) a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.

Tra'n ystyriol o'n priod rolau a chyfrifoldebau, y ffordd orau o fodloni'r gofynion hyn ymhlith eraill yw drwy weithio mewn partneriaeth sy'n cynnig cymorth a her, a ategir gan egwyddorion a rennir cydweithio, ymyrryd yn gynnar a gweithredu buan a chadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cryn gynnydd o ran datblygu'r dull hwn o weithredu ar y cyd er mwyn adlewyrchu fframwaith a ddeallir o fewn plismona gweithredol, ond a all fod yn fodd i gyflawni ar y cyd. Mae'r diagram isod yn amlinellu'r fframwaith llywodraethu.



Gwneud penderfyniadau

Mae'r penderfyniadau y gallaf eu gwneud yn ymwneud yn bennaf â chyflawni fy swyddogaethau statudol. Nid yw deddfwriaeth yn rhagnodol o ran sut y dylwn wneud hyn ac mae gan Gomisiynwyr gryn dipyn o ryddid yn hynny o beth.

Fframwaith Penderfyniadau

Mae plismona yn wasanaeth cymhleth ac mae'n bwysig rhoi system briodol ar waith sy'n fy ngalluogi i wneud, monitro a hyrwyddo fy mhenderfyniadau allweddol. Wrth wneud hynny, rhaid i mi roi ystyriaeth briodol i safbwyntiau'r Prif Gwnstabl, yn ogystal â fy uwch dîm rheoli a Phrif Swyddogion yn Heddlu De Cymru, ymhlith eraill.

Llawlyfr Llywodraethu

Gwneuthum barhau i sicrhau bod y gofynion a nodwyd yn fy llawlyfr llywodraethu yn cael eu bodloni a bod penderfyniadau a wnaed o dan y Llawlyfr Llywodraethu yn cael eu cofnodi'n briodol ac ar gael i graffu arnynt. Cafodd y llawlyfr ei ddiweddarau yn ystod y flwyddyn ac mae fersiwn ddiwygiedig bellach ar waith.

Bwrdd Strategol y Comisiynydd

Parhaodd fy Mwrdd Strategol i gyfarfod bob yn ail fis ac yn bresennol roeddwn i a'm tîm Arwain a Phrif Swyddogion ynghyd â'r Prif Gwnstabl a'i Brif Swyddogion. Yn gryno, diben y Bwrdd yw:

- Pennu cyfeiriad strategol Heddlu De Cymru
- Archwilio a chraffu ar berfformiad ar lefel strategol
- Ystyried risgiau posibl i'r sefydliad

Caiff y pwyntiau gweithredu nad ydynt yn gyfrinachol sy'n deillio o'm cyfarfodydd eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â rhestr o'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfodydd.

Penderfyniadau'r Comisiynydd yn unig

O bryd i'w gilydd, rhaid i mi wneud penderfyniadau lle nad yw'n briodol eu hatgyfeirio at y Bwrdd Strategol nac i unrhyw fforwm arall. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae dyrannu grantiau diogelwch cymunedol i grwpiau lleol neu benodi fy uwch dîm rheoli. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath rwy'n ystyried barn broffesiynol eraill ond, yn y pen draw, fy mhenderfyniad a'm cyfrifoldeb i ydyw. Lle bo'r rhain yn benderfyniadau allweddol rwy'n sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi ar y gofrestr penderfyniadau a gyhoeddir ar fy ngwefan. Wrth wneud hynny, byddaf bob amser yn sicrhau bod fy Swyddog Monitro a/neu Swyddog adran 151 yn ymwybodol o'm penderfyniadau ac rwy'n disgwyl iddynt fy hysbysu a ydynt yn gyfreithlon.

Craffu

Panel yr Heddlu a Throseddau

Yn ystod 2015-2016 cyfarfu'r Panel bum gwaith

- 28 Ebrill 2015
- 14 Gorffennaf 2015
- 13 Hydref 2015
- 15 Rhagfyr 2015
- 1 Chwefror 2016

Ceir manylion yr agendâu, adroddiadau a chofnodion ar gyfer pob cyfarfod ar wefan y Panel

<http://democracy.merthyr.gov.uk/ieListMeetings.aspx?Committeeld=349>

Datblygais y gydberthynas waith adeiladol a heriol â'r Panel drwy barhau i gofnodi fy holl rwymedigaethau statudol a oedd yn cynnwys y praesept, fy strategaeth ariannol a'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad. Hefyd, achubais ar bob cyfle i hysbysu'r Panel o'r agweddau anstatudol ar fy ngwaith a'i wahodd i ddigwyddiadau a drefnwyd gan fy nhîm gan fy mod yn gwerthfawrogi ei fewnbwn a bod hyn yn unol â'm dull gweithredu cynhwysol.

Rwy'n parhau i gydnabod bod rôl y Panel yn bwysig ac yn rhan adeiladol o'r broses graffu ac rwy'n ddiolchgar i'w aelodau am eu cymorth yn ystod y flwyddyn.

Cyfarfu Panel yr Heddlu a Throseddau bum gwaith yn ystod y flwyddyn a gwnaeth barhau i weithredu fel "ffrind beirniadol" cadarnhaol o ran fy herio a'm cefnogi'n adeiladol gyda'm gwaith. Yn ystod y flwyddyn adroddais i'r Panel ar y pynciau canlynol:

- Iechyd meddwl a'r System Cyfiawnder Troseddol
- Troseddau cyfundrefnol a phroffiliau lleol yn Ne Cymru
- Cymeradwyaeth a pherfformiad Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddau

- Cylch cynllunio ac amserlen y praesept 2016/17
- Camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Man Cymorth Abertawe
- Adroddiadau ariannol ar - alldro refeniw a chyfalaf, datganiad cyfrifon, cynllun gwerth am arian, polisi rheoli'r trysorlys a phraesept 2016/17.
- Gwrandawriad cadarnhau ar gyfer penodiad arfaethedig Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau
- Ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan y Panel ar fewnfudo, sylweddau seicoweithredol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.
- Cyflwyniad ar berfformiad, boddhad dioddefwyr, hyder y cyhoedd, trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ffocws cymunedol, technoleg a chyllid hanesyddol.

Cyd-Bwyllgor Archwilio

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl a minnau gael Pwyllgor Archwilio. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gwnaethom greu pwyllgor ar y cyd at y diben hwn. Nid yw'r pwyllgor yn gyfrifol am graffu arna i na'r Prif Gwnstabl ond mae rhai materion y mae'n rhaid iddo eu hystyried megis cynlluniau archwilio blynyddol a'r datganiad cyfrifon blynyddol, felly bydd yn rhoi unrhyw argymhellion neu sicrwydd i naill ai fi neu'r Prif Gwnstabl ar yr un peth.

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am roi sicrwydd ar ddigonolrwydd cyffredinol trefniadau rheoli risg a bydd yn goruchwyllo'r broses adrodd ariannol. Bydd y pwyllgor yn ymdrin â phob mater yn ymwneud â safonau archwilio mewnol.

Mae'r Cyd-Bwyllgor Archwilio yn cynnwys pum aelod allanol annibynnol a benodir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl. Aelodau presennol y pwyllgor yw:

- Mr Jeffrey Edwards
- Mr Gareth Evans
- Mr Robert Evans
- Mr Gethin Lewis
- Mr Alan Thomas

Caiff y Pwyllgor adroddiadau ymhob un o'i gyfarfodydd gan yr archwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru, a'r archwilwyr mewnol, Deloitte. Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol bedair gwaith yn 2015-2016 ar y dyddiadau canlynol:

- 24 Mehefin 2015
- 29 Medi 2015
- 9 Rhagfyr 2015
- 30 Mawrth 2016

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cwrdd ar gyfer seminarau ar feysydd penodol a materion hyfforddi a datblygu.

Atodir adroddiad blynyddol y Cyd-Bwyllgor Archwilio yn atodiad 3.

Mae'n braf nodi i Swyddfa Archwilio Cymru roi barn archwilio ddiamod ar y Cyfrifon ar gyfer 2015-2016.

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM ei hail asesiad o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb Heddlu De Cymru, drwy broses arolygu PEEL (police effectiveness, efficiency and legitimacy). Nododd yr asesiad y canlynol:

- Mae effeithiolrwydd Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu yn **dda**.
- Mae effeithlonrwydd Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu yn **dda**.
- Mae dilysrwydd Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu yn **dda**.

Tynnodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM sylw at berfformiad Heddlu De Cymru o ran cadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu, yn ogystal â'i effeithiolrwydd wrth atal troseddu a'r gwasanaeth dibynadwy a ddarperir i ddiodefwrwr. Dylai'r fath berfformiad dawelu meddyliau cymunedau De Cymru, a rhydd sail gadarn i lansio'r gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr yn 2016, sy'n ceisio gwella ymhellach faint o gymorth a roddir i ddiodefwrwr a sicrhau bod llais y defnyddiwr wrth wraidd y camau a gymerwn.

Roedd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM hefyd wedi'i tharo gan ddealltwriaeth gynhwysfawr yr heddlu o'r cymunedau a wasanaethir ganddo, sydd yn ei dro wedi galluogi'r heddlu i feithrin dealltwriaeth dda o'r galw am ei wasanaethau. Yn y maes hwn, cydnabu fod yr heddlu yn neilltuol o ran defnyddio adnoddau i fodloni'r galw am ei wasanaethau, gan leihau costau a gwella gwasanaethau ar yr un pryd.

Tryloywder

Cofrestr Penderfyniadau

Mae Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau pwysig gael eu cofnodi ar gofrestr penderfyniadau. Mae'r gofrestr yn cynnwys yr holl benderfyniadau allweddol a wnaed o ganlyniad i'r trefniadau a ddisgrifir uchod. Ni chofnodir pob penderfyniad rwyf wedi'i wneud yma, dim ond y rheini sydd o bwys neu a fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Nid wyf wedi cynnwys pob un penderfyniad am sawl rheswm, sef nad yw'n ofynnol i mi wneud hynny, byddai'n rhy fiwrocraidd i gynnal y gofrestr, byddai gormod o fanylder iddi fod yn hawdd ei harolygu'n gyhoeddus, ni fyddai'r manylder ar lefel ddigon strategol a gallai penderfyniadau allweddol gael eu colli ymhlith yr holl rai eraill.

Penderfyniadau Cyhoeddi

Mae gennyf ddyletswydd i gofnodi pob penderfyniad sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, fel y nodir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011. Cyhoeddir y rhain ar fy ngwefan: www.southwalescommissioner.org.uk/decisions. Bob mis, yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Strategol a gynhelir gyda'r Prif Gwnstabl, rwy'n cytuno ar y penderfyniadau i'w cyhoeddi, a chaiff y rhain eu diweddarau ar y wefan.

Ar gyfer penderfyniadau pwysig, fel y praesept, cynllun yr heddlu a throseddu a phenodiadau pwysig, rwyf wedi gwneud yn siŵr bod y rhain yn cael mwy o gyhoeddusrwydd – boed hynny drwy'r cyfryngau, mewn cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol neu'n uniongyrchol i bartneriaid a grwpiau lleol drwy gyflwyniadau.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Y weledigaeth yw bod y gorau am ddeall ac

ymateb i anghenion ein cymunedau; mae cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth wraidd hyn.

Er mai diben yr heddlu yw atal troseddu, gostwng troseddu a diogelu'r cyhoedd, yn enwedig aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas, dim ond drwy weithio mewn partneriaeth yn effeithiol a sicrhau cyfathrebu clir yn fewnol ac yn allanol y gellir cyflawni hyn.

Mae gan gyfathrebu ac ymgysylltu rôl hanfodol i'w chwarae o ran cyflawni gweledigaeth Heddlu De Cymru sef bod y 'gorau o ran deall anghenion ein cymunedau ac ymateb iddynt'. Mae meithrin a chynnal cydberthnasau cadarnhaol yn hanfodol i lwyddiant pob agwedd ar blismona, lle mae cyfathrebu effeithiol yn deillio o ryngweithio â chymunedau, gwrando ar eu safbwyntiau a gweithredu arnynt mewn ffordd sy'n gwella'r modd y darparwn wasanaethau. Mae cydweithio wrth wraidd hyn, gyda dulliau cyfathrebu yn diwallu anghenion ac yn bodloni gofynion gwahanol gymunedau ardal De Cymru.

Mae De Cymru yn profi rhai o'r lefelau isaf o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ers sawl blwyddyn ond rhydd toriadau i wasanaethau cyhoeddus heriau newydd i blismona. Y nod yw sicrhau bod De Cymru yn fwy diogel ac mae'n bwysicach nag erioed i ni gymryd camau seiliedig ar dystiolaeth sy'n gweithio. Felly, y bwriad yw cyfuno blaengynllunio ar gyfer perfformiad a chyfathrebu, gan adeiladu ar strategaeth gyfathrebu ar y cyd. Nod y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar y Cyd hon yw amlinellu ein dull o gefnogi cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd Heddlu De Cymru a chyflawni Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2016-2021.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi datblygu cyfres o flaenoriaethau a rennir ar gyfer plismona De Cymru ac rydym wedi

cytuno i ddatblygu un system i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Parhawn i gyflawni ein gwerthoedd o fod yn Broffesiynol, yn Falch ac yn Gadarnhaol.

Mynediad i wybodaeth

Er y byddaf yn ymdrechu i roi cynifer o fanylion â phosibl ar fy ngwefan mae'n anochel y bydd adegau pan na allaf wneud hyn. O dan y fath amgylchiadau, efallai y gofynnir i mi ddarparu manylion o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Ddeddf Diogelu Data. Rwyf wedi sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith o fewn fy nhîm fy hun a lle bo angen weithio gyda'r Prif Gwnstabl fel y rhoddir ymatebion prydlon.

Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Cedwir cofrestr o achosion o dderbyn rhoddion a lletygarwch a gyhoeddir ar fy ngwefan yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig).

Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011

Mae'r gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau gyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefannau fel y gallwn fod yn dryloyw o ran yr hyn a wnawn. Yma cewch wybodaeth am y canlynol ar gyfer 2014-2015.

- Y Comisiynydd
- Materion staff
- Incwm a Gwariant
- Eiddo, hawliau a rhwymedigaethau
- Penderfyniadau
- Polisiâu
- Atal trosedd ac anhrefn
- Cynllun annibynnol ymweld â phobl yn y ddalfa

Hyrwyddo Moeseg a Gwerthoedd

Cyn cyflwyno'r Cod Moeseg, cafodd staff a swyddogion o fewn Heddlu De Cymru eu dwyn i gyfrif o ran eu hymddygiad a'u safbwynt moesegol drwy fonitro ac addysg gan Adran Safonau Proffesiynol Heddlu De Cymru. Gweithiodd fy Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn agos gyda'r Adran Safonau Proffesiynol er mwyn sicrhau bod pob swyddog yn glynu wrth y safonau proffesiynol gofynnol.

Gweithiodd fy Rheolwr Ymateb y Cyhoedd yn agos iawn gyda'r Adran Safonau Proffesiynol a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru â chyfrifoldeb am safonau proffesiynol i gyflwyno ac ymgorffori Cod Moeseg o fewn Heddlu De Cymru. Arweiniodd hyn at sefydlu Pwyllgor Moeseg Annibynnol sy'n cynnwys aelodau annibynnol o'r gymuned o fewn De Cymru a fydd yn cynnal adolygiad annibynnol o benderfyniadau strategol ac weithiau rai gweithredol a wneir a gaiff effaith foesebol.

Rwyf wedi sicrhau bod tryloywder a'r Cod Moeseg yn thema sy'n rhedeg drwy Gynllun yr Heddlu a Throseddau ac ni chredaf fod angen i hyn fod yn bwnc ar wahân yn y Cynllun. Mae safonau proffesiynol uchel ac egwyddorion moesegol cryf yn dwyn ynghyd holl feysydd plismona a gweithio mewn partneriaeth a byddant yn agwedd gyffredin sy'n cysylltu fy holl feysydd gwaith.

Gwirfoddoli

Datblygu ein dull o ymdrin â gwirfoddoli ar y cyd

Rydym wedi parhau i weithio'n strategol gyda'r Prif Gwnstabl a'i dîm er mwyn cynyddu cwrpas ac effeithiolrwydd ein buddsoddiad mewn gwirfoddoli, tra'n parhau i wahanu cyfrifoldebau fel sydd angen. Er enghraifft, mae'r Prif Gwnstabl yn recriwtio ac yn rheoli Cwnstablaid Gwirfoddol ac mae'r Comisiynydd yn recriwtio ac yn rheoli Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Yn ystod 2015-2016 lansiodd cynllun newydd Gwirfoddolwyr Ifanc Heddlu De Cymru fel menter ar y cyd o fewn teulu Heddlu De Cymru yn cynnwys y Comisiynydd Cynorthwyol, Dr. John Rose. Mae'r cynllun newydd yn targedu'r rheini rhwng 13 a 18 oed a'i nod yw ysbrydoli pobl ifanc i chwarae rhan gadarnhaol yn eu cymunedau, rhoi cyfleoedd i leisiau pobl ifanc gael eu clywed, annog eu hymdeimlad o antur a dinasyddiaeth dda, hyrwyddo dealltwriaeth ymarferol o blismona a chefnogi blaenoriaethau plismona lleol drwy gyfleoedd gwirfoddoli. Lansiodd pedair 'canolfan' yn 2015-2016 ac erbyn hyn mae wyth ohonynt.

Un o brif egwyddorion y cynllun yw recriwtio cyfran o wirfoddolwyr o gefndiroedd agored i niwed ac o'r ardaloedd hynny lle mae lefelau ymgysylltu â'r heddlu yn isel.

Mae'r ymgysylltu wedi parhau gyda Myfyriwr-wirfoddolwyr yr Heddlu yn cefnogi'r rhaglen Gostwng Trais yn Abertawe, ac yn cytuno ar recriwtio Cwnstablaid Gwirfoddol ychwanegol a chefnogi hynny.

Lansiodd Compact Heddlu De Cymru â'r Trydydd Sector ym mis Hydref 2015 ac mae bellach wedi ehangu i gynnwys y ddau Wasanaeth Tân ac Achub. Sefydlwyd grŵp

llywio i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cytundeb sy'n cynnwys ymrwymiad i gefnogi gwirfoddoli.

Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa ac Ymweliadau Lles Anifeiliaid

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn wirfoddolwyr o'n cymunedau lleol sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu heb unrhyw rybudd er mwyn siarad â'r sawl a gedwir yno ac archwilio amodau'r celloedd. Nhw yw 'llygaid a chlustiau ein cymunedau' ac maent yn rhoi sicrwydd annibynnol am y ffordd y caiff pobl eu trin yn y ddalfa gan yr heddlu. Mae ymweld â'r ddalfa yn ddyletswydd statudol ac yn un o'r ffyrdd allweddol y caiff y Prif Gwnstabl ei ddwyn i gyfrif.

Cedwir unigolion yn un o bedair dalffa yn Abertawe, Bae Caerdydd, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Cynhaliwyd 203 o ymweliadau â'r dalfeydd hyn yn 2015-2016 a siaradwyd â 716 o unigolion, gan gynnwys 66 o bobl ifanc. Mae hyn yn cymharu â 614 o unigolion (gan gynnwys 50 o bobl ifanc) yn 2014-2015. O'r holl unigolion a allai dderbyn ymweliad, derbyniodd 94% yr ymweliad a gynigiwyd.

Arsylwodd ymwelwyr ar amodau yn y celloedd a'r unedau dal, siaradwyd ag unigolion am eu hawliau yn y ddalfa ynghyd ag unrhyw bryderon lles a allai fod ganddynt ac adroddwyd yn ôl. Nodwyd materion mewn 46% o ymweliadau - y mwyaf cyffredin oedd 'lles unigolion' ac yna 'gwaith atgyweirio a diffygion'. Dim ond 4% o'r materion a nodwyd oedd yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, a gyfyngir i'r materion hynny a allai beri bygythiad uniongyrchol i unigolion, ac roedd glendid yn 6%. Roedd 9% arall yn ymwneud â dosbarthu, casglu neu storio nwyddau sy'n cynnwys, er enghraifft, gyflenwi bwyd a diod, blancedi a dillad gwrthrygo a

nwyddau golchi dillad. Mae 'lles unigolion' yn cynnwys achosion lle maent yn ymddangos yn ofidus neu wedi cynhyrfu, pryderon am ofal plant neu anifeiliaid anwes tra'u bod yn y ddalffa a cheisiadau am feddyginiaeth neu i weld nyrs neu feddyg. Prin iawn oedd y cwynion gan unigolion am eu gofal neu driniaeth yn y ddalffa. Ar y cyfan, roedd materion atgyweirio o ganlyniad i 'dreulio' neu, mewn rhai achosion, ddifrod bwriadol gan unigolion. Er bod rhai atgyweiriadau yn cymryd amser hir i'w gwneud oherwydd yr angen i aros am rannau arbenigol neu, yn achos Bae Caerdydd, sy'n dyddio'n ôl i broblemau hirsefydledig gyda'r gwaith dylunio ac adeiladu gwreiddiol (yr ymdrinnir ag ef), anogir yr ymwelwyr gwirfoddol i barhau i roi gwybod am faterion o'r fath, fel bod gwasanaethau'r ddalffa yn parhau i fynd ar eu hôl nhw.

Caiff pa ddiwrnod o'r wythnos a pha amser o'r dydd y cynhelir ymweliadau eu monitro hefyd, a ddangosodd, yn 2015-2016, mai dydd Mawrth oedd y diwrnod mwyaf poblogaidd i gynnal ymweliad (48) ac mai dydd Gwener oedd y lleiaf poblogaidd (14). Yn gyffredinol, cwblhawyd 31 o ymweliadau ar y penwythnos. Ychydig iawn o ymweliadau a gynhaliwyd ar ôl 7:30pm (16) o gymharu â 67 rhwng 8am a hanner dydd, 55 rhwng hanner dydd a 4pm a 47 rhwng 4pm a 6pm. Felly, anogwyd ymwelwyr i gynyddu eu hymweliadau y tu allan i adegau poblogaidd ac ar y penwythnos.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr ymwelwyr gwirfoddol, cynrychiolydd y Comisiynydd, Arolygwyr y Ddalffa ac uwch swyddogion er mwyn trafod unrhyw bryderon a sicrhau bod y cynllun yn gweithredu'n effeithiol.

Hefyd, mae'r Comisiynydd yn gweithredu cynllun ymweliadau lles anifeiliaid lle mae gwirfoddolwyr yn ymweld â chŵn a cheffylau'r heddlu yn Waterton er mwyn sicrhau bod anghenion lles yn cael eu diwallu. Mae'r Panel yn cynnwys milfeddyg yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Cŵn a'r RSPCA.

Yn ystod 2015-2016 cynhaliwyd 43 o ymweliadau â Waterton.

Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r gofyniad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae gan y llywodraeth gyfrifoldeb i sicrhau bod adnoddau digonol ar waith i ymateb i fygythiadau troseddoldeb difrifol a thrawsffiniol megis terfysgaeth, argyfyngau sifil, anhrefn gyhoeddus a throseddau cyfundrefnol, ac er mwyn cefnogi gwaith asiantaethau cenedlaethol megis yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol.

Er nad gofyniad plismona strategol ydyw mewn gwirionedd, roedd cyfraniad Heddlu De Cymru at uwchgynhadledd NATO yn enghraifft wych o sut y gall heddluoedd ddod at ei gilydd i blismona digwyddiad o bwys rhyngwladol. Mae'n briodol i ni fod yn falch o gyfraniad ein swyddogion a staff yr heddlu. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Ymgysylltu

Digwyddiadau a chyfarfodydd yn 2015-2016

Atodir rhestr o'r digwyddiadau a'r cyfarfodydd allweddol a fynychais yn 2014-2015 yn Atodiad 4.

Manylion Cyswllt

Cyfeiriad y swyddfa:

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

Ffôn: 01656 869366

E-bost:

commissioner@south-wales.pnn.police.uk

Atodiad 1

Cyflawniadau Nodedig 2015-2016

- Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2016-2021
- Uwchgynhadledd Ymyrryd yn Gynnar Ionawr 2016
- Y Gronfa Bartneriaeth
- Prosiectau Cronfa Arloesedd yr Heddlu
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer trefniadau cydweithredol
- Achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ar gyfer tîm y Comisiynydd
- Lansio Cynllun Gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Cyflwyno Strwythur Saerniaeth Integredig Unigol
- Datblygu ystad yr heddlu
- Cynhadledd gostwng troseddu
- Rhaglen y Gweithlu Cynrychioliadol

Atodiad 2

Crynodeb o Arian Grant Diogelwch Cymunedol 2015-2016

Ardal Awdurdod Lleol	Diben y cyllid a'r bartneriaeth	Cyllid £
Pen-y-bont ar Ogwr	Diogelwch Cymunedol (Partneriaeth Pen-y-bont ar Ogwr Mwy Diogel)	56.1k
	Atal Troseddwy Ifanc (Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar a Chyfiawnder Ieuenctid y Bae Gorllewinol)	31.9k
Caerdydd	Diogelwch Cymunedol (Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel a Chydlynol)	149k
	Atal troseddwy ifanc (Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Caerdydd)	78.7k
Merthyr Tudful	Diogelwch Cymunedol (Bwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful)	41.2k
	Atal Troseddwy Ifanc (Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Cwm Taf)	34.9k
Castell-nedd Port Talbot	Diogelwch Cymunedol (Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel)	59.7k
	Atal Troseddwy Ifanc (Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar a Chyfiawnder Ieuenctid y Bae Gorllewinol)	35.8k
Rhondda Cynon Taf	Diogelwch Cymunedol (Bwrdd Gwasanaethau Lleol/Bwrdd Diogelwch Rhondda Cynon Taf)	82.3k
	Atal troseddwy ifanc (Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Cwm Taf)	64.4k
Abertawe	Diogelwch Cymunedol (Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel)	120.5k
	Atal Troseddwy Ifanc (Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar a Chyfiawnder Ieuenctid y Bae Gorllewinol)	63.1k
Bro Morgannwg	Diogelwch Cymunedau (Bro Morgannwg Mwy Diogel)	56.5k
	Atal Troseddwy Ifanc (Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Bro Morgannwg)	23.2k

Atodiad 3

Adroddiad Blynyddol y Cyd-Bwyllgor Archwilio 2015-2016

Dyma Drydydd Adroddiad Blynyddol y Cyd-Bwyllgor Archwilio a sefydlwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru yn 2013 i roi sicrwydd annibynnol ar faterion ariannol a llywodraethu sy'n effeithio ar y ddwy Gorfforaeth Undyn.

Caiff y Pwyllgor ei reoli gan Gylch Gorchwyl nad yw wedi newid yn y flwyddyn gyfredol ac ni fu unrhyw newid o ran aelodau'r pwyllgor ers ei sefydlu.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn a defnyddir cyfarfodydd am yn ail ar gyfer dadansoddiad manwl o faterion neu gyflwyniadau ar feysydd datblygu busnes sy'n dod i'r amlwg.

Wrth lunio ei farn, mae'r Pwyllgor yn dibynnu ar waith Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol, Adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM ac Asesiadau Peel a mewnbwn gan Uwch Dimau Rheoli'r ddwy Gorfforaeth Undyn. Gwasanaethir y Pwyllgor gan Ysgrifenyddiaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a chaiff ei gynorthwyo gan Dîm Ymchwil Gweithredol y Prif Gwnstabl.

Archwilio Mewnol

Darperir y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gan TIAA yn dilyn proses dendro gystadleuol lwyddiannus. Bu'r broses bontio rhwng Archwilwyr Allanol yn llwyddiannus heb i unrhyw fater godi.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn un seiliedig ar risg sy'n canolbwyntio ar risgiau ariannol a gweithredol sylweddol a nodwyd gan uwch reolwyr ac a oruchwylir ac a ddiwygir gan y Pwyllgor wrth roi'r sicrwydd gofynnol.

Cwmpaswyd 22 o feysydd yn 2015-2016 gan gynnwys systemau ariannol craidd, systemau busnes a gweithredol a materion llywodraethu. Cafodd 10 o feysydd Sicrwydd Sylweddol gan gynnwys systemau ariannol

craidd, cafodd 11 o feysydd Sicrwydd Rhesymol a dim ond un maes a gafodd Sicrwydd Cyfyngedig.

Mae'r Sicrwydd Cyfyngedig a gafwyd o ran Rheoli Ffilyd wedi rhoi'r sail i'r Uwch Reolwyr wella'r gwasanaeth ac amlinellu camau adferol y mae'r pwyllgor wedi'u derbyn ac y bydd yn eu hadolygu.

Hefyd cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar argymhellion digonol ac effeithiol Blaenoriaeth 1 a 2 oedd yn weddill o Archwiliadau Deloitte blaenorol a oedd wedi'u gweithredu.

Mae gweithdroad yr adroddiadau, y dadansoddiad manwl ac eglurder yr argymhellion yn yr adroddiadau a gafwyd wedi creu argraff ar y Pwyllgor.

Gellir gweld manylion llawn yr adroddiadau ym mhapurau gweithredol y Pwyllgor.

Daw Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol TIAA i'r casgliad bod gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabl De Cymru brosesau rheoli, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol i reoli'r gwaith o gyflawni ei hamcanion.

Archwilio Allanol

Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gynnal Archwiliadau Statudol y Corfforaethau Undyn yn unol â'r Gyfraith a gwaith archwilio perfformiad, ynghyd ag ymchwiliadau ad hoc eraill. Mae hefyd yn ystyried barn Archwilwyr Mewnol a Rheoleiddwyr wrth lunio ei barn.

Nid oes gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw gwmpas o ran gwaith Archwilio Allanol ond mae'n cynnal sesiynau preifat gyda SAC o ran materion sy'n dod i'r amlwg ac yn cael ei Llythyr Rheoli Blynyddol ac arsylwadau o gyfarfodydd Pwyllgor a fynychir.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod unrhyw argymhellion o'i waith yn cael eu

gweithredu a'u hadolygu'n brydlon.

Nodiadau'r Pwyllgor o'r Llythyr Archwilio Blynyddol:

Mae'r Datganiadau Cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Gorfforaeth Undyn a Chronfa Bensiwn De Cymru;

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol sydd heb eu cywiro o hyd. Nodwn y camddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro ac y tynnwyd sylw'r rheolwyr atynt;

Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol nas cofnodwyd eisoes;

Caiff argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad eu monitro ac yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag asedau sefydlog.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Adroddiad Diamod ar y datganiadau ariannol.

Aseiad/Arolygiadau PEEL Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried a monitro'r argymhellion a geir yn yr adroddiadau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor wedi'i daro gan nifer yr adroddiadau cadarnhaol y mae De Cymru wedi'u cael a'r ffordd y gwelwyd gwaith yr heddluoedd yn enghraifft o arfer da

Yn ôl Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM mae'r heddlu yn effeithiol wrth atal troseddau ac mae'r gwasanaethau a ddarperir i ddiodefswyr yn ddibynadwy. Mae safonau ymchwilio yn uchel ac mae trefniadau da ar waith i ymdrin â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Roedd wedi ei tharo gan ddealltwriaeth yr heddlu o gymunedau ac roedd ei broses ymgysylltu yn destun clod.

Nododd hefyd fod yr heddlu yn neilltuol o ran defnyddio adnoddau i fodloni'r galw.

Lle nodwyd meysydd ar gyfer gwella e.e. deall y galw yn y dyfodol, cam-drin domestig lefel isel, ymdrin ag ymchwiliadau cam-drin plant, stopio a chwilio, mae'r Pwyllgor eisoes wedi edrych ar y meysydd hyn, neu bydd yn edrych arnynt, yn fanwl er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol.

Cyflwyniadau gan Reolwyr

Mae'r Pwyllgor wedi cael sawl cyflwyniad gan Reolwyr yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella ei ddealltwriaeth o'r meysydd pwnc a chynnal dadansoddiad manwl o'r meysydd busnes hyn a chael sicrwydd.

Yn eu plith mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016-2020, Galw am Blismona yn y Dyfodol, Seiberdroedd, Swyddogaeth a Strategaeth Adnoddau Dynol. Twyll, Llygredd a Fetio, Strategaeth Gyfathrebu, Prosiect Fusion ac ati.

Cofrestr Risg

Mae'r Gofrestr Risg wedi cael ei hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn. Tra bu gwelliannau sylweddol i'r ffordd y rheolwyd risg a bod hyn wedi cael ei ymgorffori yn y sefydliad, teimlwyd bod angen cynnal adolygiad sylfaenol gan ddefnyddio profiad yr archwilwyr mewnol yn ogystal ag ymchwil academiaidd allanol. Caiff canlyniad yr adolygiad hwnnw ei gyflwyno yn y flwyddyn ariannol newydd.

Cynadleddau ac Ymweliadau

Yn ystod y flwyddyn aeth aelodau i Gynhadledd Pwyllgorau Archwilio Cymru gyfan yn y gogledd a hwyluswyd gan CIPFA a'r Uwchgynhadledd Ymyrryd yn Gynnar a gynhaliwyd gan Gomisiynydd a Phrif Gwnstabl pob partner yn y de.

Cafodd y Pwyllgor ei daro gan y partneriaethau ymyrryd yn gynnar a

ddatblygwyd gan yr heddlu o ran mynd i'r afael â phrif achosion trosedd ac atal troseddau.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymweld â Thŷ Richard Thomas, y Storfeydd Canolog Newydd a'r Cyfleuster Cynnal a Chadw Cerbydau newydd a redir ar y cyd gan yr Heddlu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Safle Data wrth Gefn yn Nhrelái a wnaeth gynrychioli buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn y gwaith o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau.

Adroddiad Ariannol a Datganiad Cyfrifon 2015-2016

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr Adroddiad Ariannol a'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 a baratowyd gan y Prif Swyddog Ariannol ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2015-2016

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabl De Cymru.

Yn ystod y flwyddyn cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd ei adolygu a'i symleiddio gyda'r Adran Gaffael yn cael adolygiad manwl. Canmolodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd i ddatblygu'r Llawlyfr Llywodraethu i'w ddefnyddio ar drefniadau llywodraethu eraill, yn enwedig gweithio mewn partneriaeth.

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl

Mae gan y Pwyllgor fynediad at Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl ac fe'u cynrychiolir mewn cyfarfodydd gan Uwch Reolwyr. Yn ystod y flwyddyn mae'r Comisiynydd a'r Dirprwy

Brif Gwnstabl wedi mynychu cyfarfodydd. Trafodwyd materion megis yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, gwaith Partneriaeth a seiberdrosedd.

Barn y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi cael Adroddiadau, Argymhellion ac Arsylwadau gan TIAA, yr Archwilwyr Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilwyr Allanol, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM (Asesiadau ac Adolygiadau PEEL) a chyflwyniadau gan Swyddogion o'r ddwy Gorfforaeth Undyn er mwyn llunio barn annibynnol a rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl o ran y rheolaethau ariannol a llywodraethu o fewn y Corfforaethau Undyn.

Ar ôl cael yr adroddiadau hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon nad oes unrhyw bryderon mawr sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y gorfforaeth undyn, bod y dulliau rheolaeth yn ddigonol, bod y fframwaith llywodraethu yn gadarn a bod y fframwaith rheoli risg presennol yn adlewyrchu'r risgiau priodol a bod rheolaethau rheoli a chamau lliniaru priodol ar waith.

Cynhwysir papurau gweithredol a chofnodion y Pwyllgor yn yr adroddiadau a gafwyd gan y Pwyllgor ynghyd â'r barnau a luniwyd yn ystod y flwyddyn.

Tynnir sylw at y Blaengynllun ar gyfer 2016/17 gan y Cynllun Cytûn a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 30 Mawrth 2016 ynghyd â'r materion Llywodraethu Pwysig a godwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd cyfathrebu da, yn fewnol ac yn allanol, a'r angen i rannu a dathlu arfer da. I'r perwyl hwnnw, mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld y Strategaeth Gyfathrebu newydd yn cael ei mabwysiadu ac mae'n

edrych ymlaen at gael yr Adolygiad Archwilio Mewnol o Gyfathrebu Mewnol ac Allanol yn 2016/17.

Cred y Pwyllgor mai gwaith Partneriaeth a Chydweithio sydd wrth wraidd darparu gwasanaethau yn y dyfodol a byddai'n pwysleisio'r angen am drefniadau llywodraethu priodol sydd â disgwyliadau, canlyniadau ac atebolrwydd clir ar gyfer pawb dan sylw. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i brofi trefniadau o'r fath yn 2016/17.

Noda'r Pwyllgor fod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn well na'r disgwyl ond byddai'n pwysleisio'r angen am ddarbodusrwydd ariannol parhaus o ran ymdrin â thoriadau i gyllid cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y Strategaeth Ystadau yn 2016/17.

Diolch

Hoffai'r Pwyllgor Archwilio ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gydag ef yn ystod y flwyddyn ac am y modd agored a thryloyw yr ymdriniwyd ag aelodau wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Medi 2016.

Atodiad 4

Digwyddiadau a chyfarfodydd ymgysylltu'r Comisiynydd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016

Yn ystod diwrnod gwaith arferol, cyfarfûm â phobl amrywiol gan gynnwys y Prif Gwnstabl a'i Brif Swyddogion, aelodau o staff a phartneriaid. Isod rhestrir y prif gyfarfodydd a digwyddiadau y bûm iddynt yn ystod y flwyddyn. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr, oherwydd byddai honno'n rhy hir at ddibenion yr adroddiad hwn. Bwriedir iddi roi syniad o'r modd yr ymgysylltais â phartneriaid, prif randdeiliaid a swyddogion gwneud penderfyniadau er mwyn cyflawni Cynllun yr Heddlu a Throseddau.

13 Ebrill 2015	Cinio Clwb Busnes Caerdydd
16 Ebrill 2015	Cyfarfod â Michael O'Brien a DBG Jukes
20 Ebrill 2015	Cyfarfod Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
20 Ebrill 2015	18-25 Grassroots
21 Ebrill 2015	Cyfarfod â Saleem Kidwai
21 Ebrill 2015	Digwyddiad Sebras Gurnos
21 Ebrill 2015	Digwyddiad Recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
21 Ebrill 2015	Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc Cwm Taf
21 Ebrill 2015	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Safonau Gwasanaeth a Llywodraethu Ymosodiadau Rhywiol
22 Ebrill 2015	Cyfarfod â Grant Poinier (18-25)
22 Ebrill 2015	Cyfarfod â Tim Opie, Paul Glaze ac Andy Borsden
22 Ebrill 2015	Cyfarfod â Howard Williamson
22 Ebrill 2015	Diwrnod Datblygu Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Dyfodol
23 Ebrill 2015	Derbynwest Nos - Cymdeithas Gonsylaidd Cymru
23 Ebrill 2015	Cyfarfod â Mike Harvey
23 Ebrill 2015	Cyfarfod â Tony Neate, Get Safe Online
23 Ebrill 2015	Cyfarfod ag IRIS, Caerdydd a'r Fro
24 Ebrill 2015	Angladd Rhingyll Louie Lucas
27 Ebrill 2015	Bwrdd EDHR
28 Ebrill 2015	Cyfarfod â'r Parchedig Glyn James
28 Ebrill 2015	Digwyddiad Noddi Gwobrau'r Heddlu
28 Ebrill 2015	Grŵp Cydweithio Cwm Taf Bwrdd Gwasanaethau Lleol Rhondda Cynon Taf
29 Ebrill 2015	Cyfarfod â John Munton
29 Ebrill 2015	Cyfarfod Bwrdd Prosiect Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol
29 Ebrill 2015	Cyfarfod â Jan Williams, IPCC
30 Ebrill 2015	Cyfarfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru 2015
30 Ebrill 2015	Hyfforddiant Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
30 Ebrill 2015	Digwyddiad Cwpan Cydlyniant Cymunedol
1 Mai 2015	Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Integredig De Cymru Mwy Diogel
5 Mai 2015	Bwrdd Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru
5 Mai 2015	Cyfarfod Panel Cydraddoldeb
5 Mai 2015	Style Training

5 Mai 2015	Women Stepping Out - Ymchwil Werthuso
6 Mai 2015	Cyfarfod â Jeff Matthews - Mentrau Ieuencid
6 Mai 2015	Cyfarfod Cynllunio a Pherfformiad ar y Cyd
6 Mai 2015	Is-grŵp Cyllid ar y Cyd
6 Mai 2015	Is-grŵp Cyfathrebu ar y Cyd
7 Mai 2015	Cyfarfod â Grant Poinier
7 Mai 2015	Cyfarfod â Jayne Monkhouse
8 Mai 2015	Cyfarfod â Marilyn Lloyd, Cadeirydd Panel y Gorllewin
8 Mai 2015	Noson Wobrwyo Myfyrwyr yr Heddlu
14 Gorffennaf 2015	Cyfarfod Panel yr Heddlu a Throseddau
6 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd Rhondda Cynon Taf
6 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Choleg y Drindod Caerfyrddin
6 Gorffennaf 2015	Y Pwyllgor Moeseg Annibynnol
6 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Valley Kids
6 Gorffennaf 2015	Digwyddiad Uwch Farnwyr Gweinyddol
7 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Chynghrair Howard dros Ddiwygio'r Drefn Gosbi
7 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Victoria Davies, Cyfarwyddwr TIAA
7 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Prifysgol Abertawe - Kevin Child, Craig Nowell
7 Gorffennaf 2015	Cyfarfod ag Eira Culverwell, Rheolwr Gyfarwyddwr, RESOLVE it
8 Gorffennaf 2015	Cyfarfod ag Eleri Thomas, Prif Weithredwr Comisiynydd Plant Cymru i drafod CCUHP
9 Gorffennaf 2015	Is-grŵp Cyllid y Cyngor Partneriaeth
9 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Gwarchod Cymdogaeth De Cymru
9 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Kathryn Edwards a Fron Lloyd, Cymdeithas Tai Siarter
9 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Rhiannon Hicks, Swyddog Datblygu Galluogi Cymru, Anabled Cymru
9 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Howard Jones, Buddsoddwyr mewn Pobl
10 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â'r Comisiynydd Pobl Hŷn
13 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Sally Holland, y Comisiynydd Plant
13 Gorffennaf 2015	Cyfarfod Chwarterol â Mark Bellis, Iechyd Cyhoeddus Cymru
13 Gorffennaf 2015	Cyfweliad teledu Made in Cardiff
13 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Cathy Dowling a David Morgan Ymddiriedolaeth Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
14 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Louise Cook, Met Caerdydd
15 Gorffennaf 2015	Cyfarfod Bwrdd Grŵp Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Ymyrryd yn Gynnar y Bae Gorllewinol
15 Gorffennaf 2015	Grŵp Llywodraethu Gwirfoddolwyr Cymunedol Ifanc
15 Gorffennaf 2015	Ymweliad Gweinidogol â Chanolfan Triniaeth Alcohol Caerdydd
15 Gorffennaf 2015	Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel a Chydlynol
16 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â'r Fro ynghylch Cyllid Ymddiriedolaeth Ieuencid

16 Gorffennaf 2015	No longer invisible: the hidden victims of child sexual abuse – Safe Lives
16 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Grŵp Gwarchod Cymdogaeth Gorllewin Caerdydd
16 Gorffennaf 2015	CCB CWVYS 2015
17 Gorffennaf 2015	Cyfarfod ag Eleri Butler a Lynne Sanders
20 Gorffennaf 2015	Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Caerdydd
21 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Jeff Davison a Gavin Evans o Wasanaeth Ieuenctid Abertawe
21 Gorffennaf 2015	Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd a'r Fro
21 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Mike Gardner, Niche
22 Gorffennaf 2015	Cyfarfod ag Elaine Hinadal, Drinkaware – Ymdrin â throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol
22 Gorffennaf 2015	Cyfarfod ag Emma Wools i drafod Camddefnyddio Sylweddau Abertawe
23 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Paul Mee, Sonal Shenai a Judith Vickress o SafeLives
23 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Karen Jones ar gyfer Castell-nedd Port Talbot a Sonal Shenai a Judith Vickress, SafeLives
23 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Jane Thomas a Natalie Southgate Cyngor Caerdydd a Sonal Shenai a Judith Vickress, SafeLives
24 Gorffennaf 2015	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
24 Gorffennaf 2015	Cyfarfod ag Emma Wools
24 Gorffennaf 2015	Derbynwest Ymddeoliad Ann Beynon, Cyfarwyddwr BT Cymru
27 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Shahid Malik
27 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Louise Cook, Met Caerdydd
28 Gorffennaf 2015	Cyfarfod â Judith Scannell o CRI
3 Awst 2015	Cyfarfod â Paul Orders, Prif Weithredwr Cyngor Caerdydd, a Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant
3 Awst 2015	Lansio Prosiect Treftadaeth Somalaidd
4 Awst 2015	Cyfarfod â Howard Jones, Buddsoddwyr mewn Pobl
4 Awst 2015	Cyfarfod ag Alun Davies, Style training
6 Awst 2015	Cyfarfod â Bethan Collins, Cynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon
11 Awst 2015	Cyfarfod â Thim Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig
12 Awst 2015	Cyfarfod â Phil Davies, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Mike Goldman
12 Awst 2015	Cyfarfod â Ceri Nicholas
13 Awst 2015	Gŵyl Chwaraeon StreetGames
17 Awst 2015	Cyfarfod ag Asron Harrison, Global Love
24 - 28 Awst 2015	Cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol Merched mewn Plismona
26 Awst 2015	Women Stepping Out
26 Awst 2015	Lleoliadau Myfyrwyr
27 Awst 2015	Cyfarfod â Joff Carroll Prif Weithredwr Clwb Bechgyn a Merched Cymru
27 Awst 2015	Ymryiadau Cymunedol, Prosiect Ieuenctid a Chymunedol Trelái
1 Medi 2015	Cyfarfod am TG yr heddlu gyda Jonathan Edwards, Emma Wools, a Mike Gardner
1 Medi 2015	Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

1 Medi 2015	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
2 Medi 2015	Cyfarfod â Mike Goldman
2 Medi 2015	Cyfarfod Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
2 Medi 2015	Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu
2 Medi 2015	Style Training
3 Medi 2015	Seremoni Raddio Swyddog-Fyfyrywyr
3 Medi 2015	Cyfarfod ag Andrew Mallin a Laura Robinson
8 Medi 2015	Cyfarfod Pwyllgor EHRC
8 Medi 2015	Cyfarfod â Chymdeithas yr Heddlu Du - Bharat Narbad a Vicky Knight-Little - Rhwydwaith Staff Hoyw
8 Medi 2015	Cyfarfod â Richard Morgan ValleysKids
9 Medi 2015	Cyfarfod Penderfynu y Tu Allan i'r Llys
9 Medi 2015	Cyfarfod â Phrifysgol Caerdydd ac academyddion o Brifysgol Campinas, Sao Paulo Brasil
9 Medi 2015	Cyfarfod â Hayley John, Swyddog Cyfranogiad Pobl Ifanc
9 Medi 2015	Cyfarfod â Steve Khaireh
10 Medi 2015	Cyfarfod Gwarchod Cymdogaeth
10 Medi 2015	Cyfarfod Grŵp Strategol Bro Morgannwg Mwy Diogel
11 Medi 2015	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan
11 Medi 2015	Cyfarfod â Mike Goldman a Phil Davies
11 Medi 2015	Cyfarfod â Liz Rijnenberg Prif Swyddog Gweithredol Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Dawn Blower ac Ian Barrow
15 Medi 2015	Bwrdd Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol
15 Medi 2015	Cyfarfod â Sam Evans, Llywodraeth Cymru
16 Medi 2015	Cyfarfod Bwrdd TG yr Heddlu
16 Medi 2015	Lleoliadau Myfyrywyr
16 Medi 2015	Sesiwn Sefydlu ar gyfer y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd
16 Medi 2015	Cyfarfod â Deep Sagar
16 Medi 2015	Panel Cydraddoldeb
16 Medi 2015	Fforwm Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
17 Medi 2015	Bwrdd Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel
17 Medi 2015	Cyfarfod â Jane Harvey, Network for Surviving Stalking
17 Medi 2015	Cyfarfod â Dr Jonathan Evans, Darlithydd yn y Ganolfan Troseddeg, Prifysgol Cymru
17 Medi 2015	Cyfarfod â Dusty Kennedy
17 Medi 2015	Cyfarfod â Chris Hume, Rheolwr Partneriaeth Gwyllo Cyflymder Cymunedol Gan Bwyll
17 Medi 2015	Cyfarfod â Dafydd Baker, Rheolwr Datblygu, Agored Cymru
22 Medi 2015	Cyfarfod Chwarterol Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
22 Medi 2015	Bwrdd Diogelu Plant
22 Medi 2015	Cyfarfod â Sue Holder
22 Medi 2015	Cyfarfod â Mike Goldman

21 Medi 2015	Bwrdd Newid ar y Cyd
22 Medi 2015	Cyfarfod Chwarterol Arolygiaeth Cwnstablfaeth Ei Mawrhydi ag AEM Wendy Williams
22 Medi 2015	Cyfarfod â Sue Holder
22 Medi 2015	Cyfarfod â Mike Goldman
22 Medi 2015	Bwrdd Diogelu Plant
23 Medi 2015	Cyfarfod Bwrdd Elusen Dyledion StepChange
23 Medi 2015	Cyfarfod â Jo Silver
24 Medi 2015	Cyfarfod â Chyngor Cymuned Seven Sisters
24 Medi 2015	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru
24 Medi 2015	Lansio Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru
27 Medi 2015	Gwasanaeth Diwrnod Coffa Cenedlaethol yr Heddlu
28 Medi 2015	Cyfarfod â Ben Lewis, Cyfarwyddwr Cymorth Myfyrwyr
29 Medi 2015	Bwrdd Strategol y Comisiynydd
29 Medi 2015	Cyd-Bwyllgor Archwilio
29 Medi 2015	Cyfarfod Chwarterol UPSI
29 Medi 2015	Digwyddiad Arddangos Athroffeydd Ymchwil Prifysgol Caerdydd
29 Medi 2015	Lansio ap ymgyrch alcohol Tŷ Seren
29 Medi 2015	Cyfarfod â SPICE
29 Medi 2015	Cyfarfod â Hayley Selway a Jane Thomas
29 Medi 2015	Cyfarfod â Sonal, Safe Lives
30 Medi 2015	Cyfarfod â Jo Hopkins, Pennaeth Tim y Swyddfa Gartref
30 Medi 2015	Cyfarfod Chwarterol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru
30 Medi 2015	Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Caerdydd
30 Medi 2015	Grŵp Llywio DRIVE
30 Medi 2015	Cyfarfod â'r Cynghorydd Eslmore a'r Cynghorydd De'Ath
1 Hydref 2015	Cyfarfod Chwarterol â PCC Stratford, Emma Wools a Neil Pitman
1 Hydref 2015	Bwrdd Rheoli Strategol Ystadau
1 Hydref 2015	Bwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr
1 Hydref 2015	Cinio Cyngor Mwslemaid Cymru
5 Hydref 2015	Grŵp Gweithredol Trais Rhywiol a Cham-drin Domestig Cwm Taf
6 Hydref 2015	Cyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan
6 Hydref 2015	Cyfarfod â Jeff Matthews
7 Hydref 2015	Cyfarfod Chwarterol â PCC Stratford, Mark Brace, Emma Wools ac Ian Burrow
7 Hydref 2015	Cyfarfod â'r Cynghorydd Mark Child a Jeff Davison am y Man Cymorth
7 Hydref 2015	Cyfarfod â Mike Goldman
8 Hydref 2015	Cyfarfod Chwarterol ag Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Rhondda Cynon Taf
8 Hydref 2015	Bwrdd Archwilio Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
8 Hydref 2015	Cyfarfod â Chanolfan Gymunedol Willows

8 Hydref 2015	Ein Bwrdd Cyhoeddus
8 Hydref 2015	Lansio Rainbow Bridge
9 Hydref 2015	Cyfarfod â Carey Oppenheim – Cyfarwyddwr y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar
9 Hydref 2015	Agoriad Swydddogol Tŷ Richard Thomas
12 Hydref 2015	Cyfarfod ag Ian Cox (Cymorth Myfyrwyr)
12 Hydref 2015	Bwrdd Datblygu ein Pobl
12 Hydref 2015	Ein Bwrdd Plismona
12 Hydref 2015	Cyfarfod Bwrdd Troseddau Treisgar
13 Hydref 2015	Cyfarfod Panel yr Heddlu a Throseddau
14 Hydref 2015	Bwrdd Newid ar y Cyd
14 Hydref 2015	Rhaglenni Hyfforddi Achrededig i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
14 Hydref 2015	Panel Dyfodol Cyllid gyda Leighton Andrews
14 Hydref 2015	Cynhadledd APCC
15 Hydref 2015	Cyfarfod â Peter Greenhill
15 Hydref 2015	CCB CWVYS
15 Hydref 2015	Cyfarfod Ymwelwyr â'r Ddalfa
15 Hydref 2015	Cynhadledd Troseddau Seibrgasineb a Bwlio
15 Hydref 2015	Seremoni Wobrwyo Heddlu De Cymru
15 Hydref 2015	Uwchgynhadledd yr Economi Liw Nos
15 Hydref 2015	Grŵp Llywio Adnodd Adnabod Troseddwyr â Blaenoriaeth
19 Hydref 2015	Cyfarfod â Grŵp Annibynwyr yn Gyntaf Llanilltud Fawr - Cyngor Tref
19 Hydref 2015	Digwyddiad Blwyddyn yn Ddiweddarach - Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched
20 Hydref 2015	Cyfarfod â Martin Wyke, Bwrdd TGCh yr Heddlu
20 Hydref 2015	Cyfarfod ag Ella Rabiotti, Dawn Blower, Emma Wools a Neil Pitman (IOM Cymru)
20 Hydref 2015	Cyfarfod â Reg Kilpatrick
20 Hydref 2015	Cyfarfod â BAE Intelligence
20 Hydref 2015	Cyfarfod â Nick Jarman, Plant mewn celloedd heddlu
21 Hydref 2015	Cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd, Prif Gwnstabl ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
22 Hydref 2015	Grŵp Cydweithio Cwm Taf Bwrdd Gwasanaethau Lleol Rhondda Cynon Taf
22 Hydref 2015	Cynhadledd a Lansiad COMPACT
22 Hydref 2015	Dadorchuddio plac Cloc Pafiliwn Pier Penarth
23 Hydref 2015	Lansio siop dros dro Getsafeonline
27 Hydref 2015	Cyfarfod Brecwast AIRSO
2 Tachwedd 2015	Cyfarfod Blynyddol Cyngor Partneriaeth Cymru
2 Tachwedd 2015	Cynhadledd Flynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru
3 Tachwedd 2015	Cyfarfod cydweithio bwrdd gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol
4 Tachwedd 2015	Cyfarfod â'r Gweinidogion a Chomisiynwyr Cymru
5 Tachwedd 2015	Cyfarfod Adolygu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

5 Tachwedd 2015	MASH
10 Tachwedd 2015	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwy De Cymru
10 Tachwedd 2015	Straeon a Gwobrau Dyngarol Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
10 Tachwedd 2015	Cydgysfardod Cynllunio a Pherfformiad
11 Tachwedd 2015	Uwchgynhadledd Cyfryngau Cymru
11 Tachwedd 2015	Ymchwiliad i ymgysylltu ac Islam - Comisiwn Dinasyddion y DU ar Islam, Cyfranogi a Bywyd Cyhoeddus
11 Tachwedd 2015	Gwasanaeth Sul y Cofio
12 Tachwedd 2015	Cyfarfod Bwrdd TGCh yr Heddlu
12 Tachwedd 2015	Cyfarfod â Barbara Ranger a Mike Goldman
12 Tachwedd 2015	Y Pwyllgor Moeseg Annibynnol
12 Tachwedd 2015	Grŵp Llywio ASB
12 Tachwedd 2015	Cyfarfod â Mandy Wilmott
12 Tachwedd 2015	Cyfarfod â Gofal, Hafal a Newlink
13 Tachwedd 2015	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Concordat Iechyd Meddwl Gofal mewn Argyfwng
13 Tachwedd 2015	Cyfarfod wedi'i gadarnhau â Jo Stephens AS i drafod Gwaith ar Drais yn erbyn Menywod
14 Tachwedd 2015	Seminar Flynyddol Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
16 Tachwedd 2015	Cyfarfod â Ken Skates AC
16 Tachwedd 2015	Cyfarfod â Norma Barry a Lucy Homes
16 Tachwedd 2015	Cyfarfod â Chris Sivers a Julie Thomas
17 Tachwedd 2015	Cyfarfod â Paul Orders, Tony Young, Dusty Kennedy a Mike Goldman
17 Tachwedd 2015	Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe
18 Tachwedd 2015	Cyfarfod ag Emma Richards, Dawn Blower a Dave Bebb
24 Tachwedd 2015	Cydgynhadledd â Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r APCC
25 Tachwedd 2015	Digwyddiad Trawsbleidiol Diwrnod Rhuban Gwyn
26 Tachwedd 2015	Bwrdd Cynghori Uprising Cymru
30 Tachwedd 2015	Grŵp Llywio IRIS mewn Addysg
30 Tachwedd 2015	Cyfarfod ag Ian Barrow, Emma Wools, PGC Stratford i drafod Contract Gwasanaethau Triniaeth De Cymru
30 Tachwedd 2015	Digwyddiad Cyfoeth Naturiol Cymru
1 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Nick Corrigan
1 Rhagfyr 2015	Cyfarfod ag Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Gartref ar ymweliad â Chymru
2 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Steve Franks a Nick Selwyn
2 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Cathie Brannigan - Sefydliad Waterloo
2 Rhagfyr 2015	Cyfarfod ag Emma Wools
2 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd
3 Rhagfyr 2015	Gwasanaeth Carolau Cyfunol y Gwasanaethau Brys
7 Rhagfyr 2015	Clwb Busnes Caerdydd
7 Rhagfyr 2015	Digwyddiad Academi'r Cyfryngau

8 Rhagfyr 2015	Uwchgynhadledd Diwygio'r Heddlu
9 Rhagfyr 2015	Cynhadledd Traethawd Hir
10 Rhagfyr 2015	Cynhadledd Genedlaethol Iechyd Meddwl Troseddwy
9 Rhagfyr 2015	Panel Cydraddoldeb
9 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Jo Hopkins, Tim y Swyddfa Gartref
9 Rhagfyr 2015	Cyfarfod Panel Craffu y Tu Allan i'r Llys
9 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Grŵp Ceidwadol y Fro
10 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Jan Williams, IPCC
10 Rhagfyr 2015	Cyfarfod Chwarterol ag Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Abertawe
10 Rhagfyr 2015	Afro Caribbean Women Stepping Out
11 Rhagfyr 2015	Cyfarfod Bwrdd IOM Cymru
14 Rhagfyr 2015	Cyfarfod Panel y Dwyrain Ymwelwyr â'r Ddalfa
15 Rhagfyr 2015	Cyfarfod Panel yr Heddlu a Throseddau
15 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Gary Smith, Bugeiliaid Stryd
16 Rhagfyr 2015	Cyfarfod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu - Bwrdd Archwilio a Sicrwydd
17 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Dusty Kennedy
17 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Keith Towler
17 Rhagfyr 2015	Cyfarfod â Barbara Ranger, Steve Fernham a Mike Goldman
18 Rhagfyr 2015	Cyfarfod adborth cychwynnol Arolygu Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Caerdydd
5 Ionawr 2016	Cyfarfod â Dr Emily Warren
6 Ionawr 2016	Cyfarfod ag Emma Wools a Peter Greenhill
6 Ionawr 2016	Cyfarfod Chwarterol ag Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot
7 Ionawr 2016	Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Caerdydd
12 Ionawr 2016	Cyfarfod â Dr David Parry
13 Ionawr 2016	Cyfarfod Bwrdd TGCh yr Heddlu
14 Ionawr 2016	Trafodaeth Bord Gron ag Arweinydd Abertawe a Chris Sivers
15 Ionawr 2016	Cyfarfod Bwrdd Strategol y Comisiynydd (LL) aildrefnwyd o 20/1
18 Ionawr 2016	Cyfarfod ag Arweinydd Cyngor Merthyr (LL)
26 Ionawr 2016	Cyfarfod ag Arweinydd Cyngor RhCT (LL)
27 Ionawr 2016	Cynulliad Coffaol yr Holocost
28 Ionawr 2016	Cyfweliad ffôn â'r newyddiadurwraig Mary O'Hara o'r Guardian ar Ymyrryd yn gynnar
10 Chwefror 2016	Sioe Deithiol Uned Reoli Sylfaenol
10 Chwefror 2016	Briffio'r cyfryngau ar Adroddiadau AEM gyda PGC Lewis Steve Edwards, yr Adran Gyfathrebu i roi manylion pellach
11 Chwefror 2016	cadw'n rhydd
17 Chwefror 2016	Cyfweliadau Teledu â BBC Cymru Wales
17 Chwefror 2016	Cyfweliadau â Radio Wales a Radio Cymru
29 Chwefror 2016	Galwad ffôn ag AEM Wendy Williams
01 Mawrth 2016	Cyfarfod ag UNSAIN

10 Mawrth 2016	Grŵp Sefydlog Gweithio mewn Partneriaeth i Ostwng Troseddu APCC
22 Mawrth 2016	CADARNHAWYD: Cyfarfod ag Adrian Oliver i drafod Ymddiriedolaeth Ieuentid De Cymru
22 Mawrth 2016	Cyfarfod dal i fyny pythefnosol Comisiynwyr Cymru
23 Mawrth 2016	Cyfarfod Bwrdd Strategol y Comisiynydd (LL)
23 Mawrth 2016	Seremoni Llofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
30 Mawrth 2016	Cwpan Cydlyniant Cymunedol
31 Mawrth 2016	Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel a Chydlynol